

# ECO'R WYDDFA

Rhif 236

GORFFENNAF 1997

Pris 30c

## Canolfannau Ailgylchu Newydd Cwm-y-glo a Llanberis



Yn ystod y mis diwethaf fe sefydlwyd canolfannau ailgylchu cymunedol mewn dau bentref lleol. Wedi trafodaethau gyda chynghorau cymuned Cwm-y-glo a Llanberis aeth Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd ati i sefydlu'r canolfannau yn y ddau bentref, ar y cyd â Chyngor Gwynedd. Mae'r canolfannau yn cynnwys biniau i gasglu papur a phapur newydd, caniau diod a thecstilau. Bydd y canolfannau yn cael eu gwacau yn rheolaidd gan Wasanaeth Ailgylchu Gwynedd, sy'n rhan o Antur Waunfawr, a bydd y deunyddiau wedyn yn cael eu hailgylchu o'u canolfan ym Mangor.

## Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Eco'r Wyddfa yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Fawrth, Mehefin 10fed gyda Arwel Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Llywio yn llywyddu. Unwaith eto siomedig iawn oedd y gefnogaeth i'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd, cofnodydd a thri arall yn bresennol, sef cyfanswm o bump. Derbyniwyd dau ymddiheuriad. Mae'r ymateb llugoer yma yn peri pryder parhaol i'r ffyddloniaid hynny sy'n ysgwyddo'r baich o gynnal yr Eco.

Cafwyd crynodeb gan y Cadeirydd o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfodydd llywio yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd sylw i fynegai'r Eco; adroddiad y Trefnydd Ariannol; problemau ac anhawsterau casglu newyddion pentrefi; y drefn gyda'r rhoddion; trefn plygu'r Eco; prynu camera yn dilyn diflaniad un yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd sylw dyladwy i'r fantolen ariannol ac yn arbennig i'r ffaith fod y gronfa'n isel. Priodolir hynny i'r ffaith fod yna arian yn parhau'n ddyledus. Nodwyd hefyd fod nifer yr hysbysebion yn is. Mae angen pennu swm ar gyfer 'insets' mewn rhai rhifynnau a

phenderfynwyd nad oedd angen newid ffioedd hysbysebu ond fod angen adolygu'r sefyllfa o bryd i'w gilydd yn ôl y gofyn.

Bu'r pwyllgor llywio hefyd yn ceisio cael mwy o weithwyr i gynorthwyo gyda'r broses o gynhyrchu'r papur. Mae yna sawl swydd allweddol angen ei llenwi neu angen cymorth i'w gweithredu, er enghraifft, trefnydd ariannol, trefnydd hysbysebion, trefnydd casglu newyddion pentrefi ac, yn ddiweddar fel y gwelir, mae angen trefnydd neu drefnyddion bwndelu'r Eco ar fyrder. Er nad yw'r sefyllfa ymhell o fod yn foddhaol mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch a'i werthfawrogiad o

## DIWEDD BREUDDWYD

Nifer fechan iawn o drigolion Llanrug ddaeth ynghyd i'r Sefydliad Coffa ar 4ydd Mehefin i benderfynu dyfodol yr ymgyrch i godi canolfan gymunedol i'r pentref. Y syniad gwreiddiol oedd cyfuno capel, ystafell snwcer, ystafell i'r Seindorf a neuadd fechan gydag adnoddau arlwyio, oll o dan yr un to.

Galwyd y cyfarfod gan y Cyngor Cymuned yn wyneb y ffaith bod y Seindorf Arian bellach wedi tynnu allan o'r bartneriaeth ynghyd â dymuniad Capel y Rhos hefyd i ddilyn opsiynau eraill i ddiwallu ei anghenion.

Bu'r ymgyrch i sicrhau canolfan ar y gweill ers bron i bum mlynedd dan arweiniad y Cyngor Cymuned, ac er i ymgyrchoedd lleol gasglu dros £6,000 ni allodd y bartneriaeth ddenu y grantiau sylweddol angenrheidiol.

Yn anfodlon felly penderfynwyd dirwyn yr ymgyrch i ben a diddymu'r bartneriaeth. Ymhellach cytunwyd i ddosbarthu £100 o'r gronfa leol i bum mudiad yn y pentref, sef

Ysgol Sul Capel y Rhos, Clwb Ieuencid, Clwb Snwcer, Clwb Pêl-droed Iau, a'r Eisteddfod bentref.

Trafodwyd nifer o opsiynau ynglŷn â sut i ddefnyddio'r gweddill o'r arian a chytunwyd yn unfrydol i'w gynnig i Ymddiriedolwyr y Sefydliad Coffa i wella ac ehangu'r ddarpariaeth yno.

Ar y 18fed Mehefin cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad Coffa a chytunwyd i dderbyn y cyfraniad ac i wahodd syniadau oddi wrth fudiadau lleol ynglŷn â defnydd o'r Sefydliad. Y bwriad nawr yw edrych ar anghenion y mudiadau hynny ac ystyried, yn gynnar ym mis Medi, beth ellir ei gyflawni.

## Ar gof a chadw yn yr Eco



Yn rhifyn mis Mai o'r Eco cofnodwyd camp arbennig tîm pêl-droed dan 12 oed Ysgol Brynrefail. Neilltuwyd tudalen ganol y papur i ddathlu'r achlysur, gan olrhain y daith i'r gêm derfynol yn ogystal â chofnodi'r diwrnod mawr mewn adroddiadau a lluniau. Yng nghyfarfod blynyddol yr Eco fe gymeradwywyd awgrym y Golygydd Chwaraeon i gyflwyno copi o'r dudalen, wedi'i fframio, i'r Ysgol. Yn y llun gwelir yr hogiau, ynghyd â'r prifathro, Mr John Grisdale a'r hyfforddwr, Mr Phil Williams.

waith diflino y golygyddion, trefnyddion presennol, goheb-wyr, gwerthwyr o ddrws i ddrws, cyfranwyr misol, a phawb arall sy'n yn ymwneud â'r papur. Heb ymroddiad y gwirfoddolwyr hyn ni fyddai'r Eco yn bod o gwbl. Apeliodd drachefn yn ei adroddiad am fwy o bobl ddod i gynnig eu gwasanaeth.

Cafwyd adroddiad byr gan Y Parchg John Pritchard, un o'r golygyddion. Ar y cyfan roedd yn eithaf bodlon gyda'r sefyllfa olygyddol. Un o bryderon y golygyddion yw'r lleihad yn y newyddion o'r pentrefi ac fe fydd y pwyllgor llywio yn trafod y sefyllfa yma ymhellach yn ystod y flwyddyn.

Eglurodd Richard Lloyd Jones, y golygydd chwaraeon, ei fwriad i sefydlu cystadleuaeth rhyng-bentrefol a noson wobrwyo ym mro'r Eco yn ystod mis Tachwedd. Derbyniodd gymeradwyaeth y cyfarfod blynyddol i symud ymlaen gyda'r ddau gynllun a dichon y bydd mwy o fanylion yn dilyn ar y dudalen chwaraeon.

Syniad y golygydd chwaraeon hefyd oedd fframio tudalen ganol rhifyn Mai 1997 a neilltuwyd yn gyfan gwbl i ddynodi llwyddiant ysgubol tîm pêl-droed dan 12 oed Ysgol Brynrefail yn Aberystwyth. Llwyddasant i gipio Tlws Cyril Rogers yn y

(Parhad ar dudalen 3)

# ECO'R WYDDFA

Rhif 236  
GORFFENNAF 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### Golygyddol:

JOHN PRITCHARD  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS  
LLEIFIOR, LLANRUG  
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:  
ARWEL JONES  
CAE EBONI, PENISARWAUN  
Ffôn: (01286) 871274

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel,  
(01248) 670115

### DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)

### FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

### DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,  
Bangor (01248) 353337 neu 871925

### TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug (675605)

### TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug  
(673696)

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

### TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,  
Llanrug (650200)

### TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw  
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran  
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

### DINORWIG:

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn  
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,  
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,  
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEDI 4

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

NOS LUN, AWST 25

Os gwelwch yn dda

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

| RHIFYN   | DYDDIAD PLYGU | BLE?        | CYSYLLTU Â      | RHIF FFÔN |
|----------|---------------|-------------|-----------------|-----------|
| MEDI     | MEDI 4        | DINORWIG    | —               | —         |
| HYDREF   | HYDREF 2      | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans   | 872407    |
| TACHWEDD | HYDREF 30     | LLANBERIS   | Mr Gwilym Evans | 872034    |
| RHAGFYR  | TACHWEDD 27   | CAEATHRO    | Mr Clive James  | 677438    |

## MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556

DEINIOLLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol (01286) 871174

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

# Llythyr

## DIOLCH

Diolch o galon i bawb a ddaeth i  
Glwb Cymdeithasol Llanberis nos  
Wener, 6 Mehefin, i'r Noson Hwyl a  
Sbri gyda Seindorf Arian Deiniolen,  
Côr Meibion Dyffryn Nantlle a Ray  
John, Llanberis.

Cafwyd noson arbennig o dda ac  
fe godwyd cyfanswm o £2043.03  
tuag at 'Motor Neurone Disease  
Association'.

Diolch i bawb am eu cyfraniad i  
lwyddiant y noson.

ANNE CUMBERTON

(Cymdeithas Afiechyd Motor Neurone)

## Cofio Cymdeithas Gwaun Cwm Brwynog

Annwyl Ddarllenwyr,

Gan fy mod yn casglu cymaint o  
wybodaeth ag sydd bosib ynglŷn â'r  
teuluoedd oedd yn byw yng Nghwm  
Cwm Brwynog yn ystod y ganrif  
ddiwethaf a'r ganrif hon, byddwn yn  
fwy na diolchgar o gael benthyg  
lluniau yn ymwneud â'r gymdeithas  
yn y Cwm ac o glywed hanesion am  
gymeriadau a digwyddiadau yn y  
gymdeithas honno.

Rwyf wedi cael ymateb hynod i fy  
niddordeb eisoes ac os oes gan  
rywun o ddarllenwyr yr Eco ragor o  
hanes, a fydddech cystal a chysylltu  
â mi yn y cyfeiriad isod neu ffonio  
(01286) 650457.

Yn hynod ddiolchgar,

ROL WILLIAMS

5 Pant y Waun

Waunfawr, Caernarfon

## Diolch . . .

Annwyl Olygydd,

Wedi dod gartref o'r ysbyty ar  
ôl cael llawdriniaeth fe hoffwn  
anfon gair o ddiolch i bawb  
ohonoch sydd wedi bod mor  
garedig yn dymuno gwellhad  
llwyr a buan i mi. Mawr yw fy  
niolch am y cardiau a gefais,  
ac am y blodau hardd, a'r  
anrhegion ac am y galwadau  
ffôn. O weld hyn oll, ac am y  
bobl sydd wedi galw yma i'm  
gweld, gallaf dystio fy mod yn  
ffodus iawn i fyw mewn  
cymdeithas o bobl garedig  
iawn. Unwaith eto diolch o  
galon i chwi i gyd.

Yn gwell,

Yn ddiffuant,

PAT LARSEN

Llygad yr Haul, Penisarwaun  
Caernarfon

# DALIER SYLW

## CYFRANNWYR, GOHEBWYR a HYSBYSEBWYR

Bydd y rhifyn nesaf o'r Eco yn dod o'r Wasg  
ar 4 MEDI

Os gwelwch yn dda, a fydddech cystal â gofalu  
fod y deunydd yn cyrraedd ar y diwrnod  
priodol:

nos Lun, 25 AWST

DIOLCH (Golygyddion)

# IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i  
bensïynwyr, myfyrwyr  
a phlant ysgol.

# YN EISIAU AR FYRDER

## Trefnydd Bwndelu Eco'r Wyddfa

Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ers sawl blwyddyn gan Ann  
a Jeremy Gibbins, Lodj Plas Tirion ac fe ddymuna'r  
Pwyllgor Llywio ddiolch yn ddiffuant iawn i Ann a Jeremy  
am eu gwaith dyfal a thrylwyr.

Oblygiadau'r gwaith yw ymuno â'r plygwyr yn y gwahanol  
bentrefi yn fisol, derbyn rhifynnau'r Eco sydd wedi eu plygu  
ac yna eu rhifo a'u bwndelu yn ôl archebion y gwahanol  
bentrefi. Yna fe ddaw nifer o brif ddosbarthwyr i gyrchu eu  
rhifynnau, ond bydd yn ofynnol mynd a rhai bwndelau i  
ambell ddosbarthwr.

Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch ag

ARWEL JONES, Cadeirydd y Pwyllgor Llywio,  
(01286) 871274.

# CHIROPODIST

Gwasanaeth  
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon  
LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754

## Dathlu . . . ac Ymlaen â'r Gwaith



Dafydd Wigley a Hugh Richard Jones yn torri'r gacen pen-blwydd.

Yn rhifyn diwethaf yr *Eco* cafwyd hanes cychwyniad yr Amgueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu yn Llanberis 25 mlynedd yn ôl. Cyfeiriwyd at y dathliadau a gafwyd i nodi pen-blwydd yr Amgueddfa yn 25 oed. Roedd y dathliadau hynny'n cydreddeg â'r Wythnos Amgueddfeydd Genedlaethol oedd yn rhoi sylw i waith amgueddfeydd o bob math. Roedd te parti arbennig wedi'i drefnu ar gyfer y rhai fu'n gweithio yn yr Amgueddfa dros y blynyddoedd.

Daeth nifer dda o'r cyn-weithwyr ynghyd â'r staff presennol i'r dathliad a chafwyd cacen pen-blwydd arbennig ar batrwm adeiladau'r Gilfach Ddu

a'i rhannu i'r rhai a ymwelodd â'r Amgueddfa y pŵn hwnnw.

Byddai Marek Sutherland, a benodwyd yn ddiweddar yn Swyddog Ymchwil yn yr Amgueddfa, yn falch o unrhyw wybodaeth sydd ar gael am y rhes tai a fydd yn cael ei symud i'r Amgueddfa yn fuan. Bydd peth o'r arian a gafwyd o Gronfa Treftadaeth y Loteri yn cael ei ddefnyddio i dalu am symud pedwar tŷ o Dan-y-grisiau, Ffestiniog, i Lanberis. Bydd y tai — rhifau 1 i 4 Fron Haul, Tan-y-grisiau — yn cael eu datgymalu a'u hailgodi yn y Gilfach Ddu. Mae Marek yn awyddus i gael gwybod pryd y codwyd y tai, a phwy a fu'n byw ynddynt dros y blynyddoedd. Byddai'n falch o gael benthg yn unrhyw luniau o'r tai. Gorau oll os bydd y lluniau yn rhoi awgrym o sut roedd y tai wedi eu dodrefnu. Gobeithir gallu dangos y tai fel yr oeddent pan oedd y chwarelwyr yn byw ynddynt. Os oes gennych wybodaeth a allai fod o help i Marek gyda'r gwaith ymchwil mynnwch air â hi yn yr Amgueddfa. Ffoniwch (01286) 870630.

Cyn ei phenodi i'w swydd bresennol enillodd Marek, sydd o Ddeiniolen, radd M.A. mewn Astudiaethau Gwerin yn y Brifysgol yng Nghaerdydd.



Rhai o'r gweithwyr presennol.



Rhai o gyn-aelodau staff yr Amgueddfa Lechi.

(Parhad o'r dudalen flaen)

gystadleuaeth genedlaethol. Bydd y dudalen wedi'i fframio yn cael ei chyflwyno i brifathro'r ysgol yn y dyfodol agos.

Cyflwynodd y Trefnydd Ariannol ei adroddiad blynyddol a bwriedir dangos y fantolen ariannol yn y rhifyn hwn. Mynegodd eto ei bryden ynglŷn â'r sefyllfa ariannol gan nodi fod rhai drwg-ddyledwyr ymysg yr hysbysebwr. Nododd yn gyntaf fod y mwyafrif llethol o'r hysbysebwr yn gefnogol iawn ac yn talu'n brydlon a'i bod yn bleser gwneud busnes â hwy. Ond mae carfan fach o hysbysebwr, am wahanol resymau, wedi defnyddio gofod yn yr *Eco* ond yn gwrthod ymateb i'w geisiadau am dâl.

Sylweddolwyd yn y cyfarfod blynyddol fod hon yn sefyllfa anodd a sensitif iawn gan fod yr *Eco* yn fodd i gynorthwyo a hybu busnesau'r fro a'r busnesau, yn eu tro, yn sicrhau dyfodol y papur drwy dalu am yr hysbysebu. Argymhellwyd yn y cyfarfod y dylid: (a) mabwysiadu cytundeb ffurfiol â'r hysbysebwr; (b) cysylltu unwaith eto â'r rhai sy'n amharod i dalu gan esbonio, ar lafar, iddynt bwysigrwydd eu cyfraniad; (c) peidio a chynnwys eu hysbysebion yn yr *Eco* yn y dyfodol. Ar gais y Cadeirydd penderfynwyd i is-bwyllgor llywio ymgynull i

drafod achosion unigol yn drwyadl gan benderfynu wedyn a fyddai'n ddilys mynd ag achosion i'r llys sirol.

Gyda mwy o ysgwyddau — yn enwedig ysgwyddau ifanc — i gynnal pwysau cynhaliol, a chyda mwy o gydweithio a chyd-ddealltwriaeth fe ddylai *Eco'r Wyddfa* fod yn gwasanaethu'r fro ymhell i'r ganrif nesaf.

### MEDDYG NEWYDD

Bydd meddyg newydd yn ymuno â Meddygfa Llanberis ddechrau mis Awst. Yn dilyn ymddeoliad Dr Pam Jones yn ddiweddar penodwyd Dr Sonia Maxwell i'w holynu. Mae gan Dr Maxwell gysylltiadau cryf iawn â'r ardal. Mae'n ferch i'r ymgynghorydd Dr Terry Maxwell a Mrs Heulwen Maxwell; ac yn wyres i'r diweddar Mr a Mrs William Hughes, Bron Eryri a'r diweddar Mr a Mrs Robert Maxwell, Dôl Elidir. Cafodd Dr Sonia Maxwell brofiad o weithio mewn sawl lle ac yn fwyaf diweddar bu'n gweithio mewn ysbyty yng Nghaeredin. Mae ei gŵr yn feddyg yn Ysbyty Gwynedd, ac mae ganddynt un ferch fach. Dymunir yn dda iawn iddi yn ei swydd newydd, ac estynnir croeso cynnes iddi i'r fro.

## Mynegai *Eco'r Wyddfa*

Efallai y cofiwch i *Eco'r Wyddfa*, ar achlysur dathlu ei 200fed rhifyn, gomisiynu MYNEGAI o gynnwys y papur ers ei sefydlu yn 1976. Gwnaed gwaith rhagorol gan Rhodri ap Llwyd o Lanrug yn cronicle'r cynnwys ond, hyd yma, ni fu'r rhestr ar gael yn gyffredinol.

Bwriedir union hynny cyn bo hir drwy argraffu'r rhestr mewn dwy ffurf:

- (a) Fel disg gyfrifiadur (addas i sawl math ond nid Apple Mac;
- (b) fel llyfryn ffotocopi (tua 80 tudalen i gyd).

Nid ydym yn sicr eto beth fydd y pris ond credir y bydd oddeutu £10 am ddisg neu ffotogopi.

Darperir copi am ddim i'r tri sefydliad a dderbyniodd gopïau rhwymedig o'r *Eco* adeg y dathliad y 200fed rhifyn.

Os oes rhywun â diddordeb mewn prynu copi, rhwng wybod cyn diwedd Gorffennaf i:

**JOHN ROBERTS  
BEDW GWYNION  
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675605

## Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

# CHWILOTA

## PYTIAU



**Diolch i Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo am alwad ffôn ynglŷn â hen adeiladau neu olion murddunod ar diroedd fferm. Ar dir Llwyncoed mae hen olion yng nghanol y goedlan dderw sy'n cael ei galw yn Tŷ Owen Ifan. Yn ôl Eirwyn Williams, roedd teulu yn byw yno yn 1841 (tystiolaeth y Cyfrifiad), sef Owen Evans. Erbyn Cyfrifiad 1851 doedd dim sôn am Owen Ifan o gwbl, ond mae'r hen furddun yn parhau i gael ei adnabod gan enw a dadogwyd arno ymhell dros ganrif a hanner yn ôl.**

O ran diddordeb bûm yn chwilo am rai eraill o hen enwau ardal y Clegir — y tai a adeiladwyd gerllaw'r hen lôn a arweiniai o Lanrug i Lanberis ar draws tir carregog yr ucheldir. Yn ardal Bryn Bras roedd tŷ o'r enw Cae Bedw (yn eiddo i Goed Goleu mae'n debyg), a thŷ o'r enw Pwll Budr. Mewn cofnodion

diweddarach enwir Pwll Budr fel rhan o Tŷr Uchaf, Bryn Bras.

Gan fod tir y Llwyncoed yn ymestyn i'r Clegir, mae cofnodion cynnar — cyn dyddiad y Ddeddf Cau Tiroedd Comin — yn cyfeirio at rai tai fel Clegir Owen Michael, sef ffermwr y Llwyncoed ar y pryd. Mewn cofnodion eraill cyfeirir at


Clegir Llwyncoed, ond mae'n anodd gwybod yn union ble roedd lleoliad y tai hyn. Hefyd yn y Clegir roedd Bryn Celyn a Gallt y Celyn (sydd yno o hyd). Enw arall sy'n gyffredin iawn yng nghofrestrau plwyf hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf yw lle a elwir yn Hafoty Croes Bennet. Nis gwn a'i enw person ai peidio oedd Bennet. Methais ddod a draws yr enw fel enw personol yn unrhyw un o gofrestrau plwyf Llanrug am y cyfnod. Tybed ble roedd y tŷ?

Yn ardal Glynrhonwy roedd tai eraill yn cael eu hadnabod fel Tai Clogwyn yr Olchfa a Thai Clogwyn Eiddew — ble bynnag roedd rheini! Mae'n debyg iddynt ddiflannu maes o law o dan domennydd llechi'r chwarel fel y câi ei datblygu.

Trwy law Mrs Olwen Llywelyn daeth llythyr oddi wrth Mrs Helen Francis (Griffith gynt o Gilgwythwch, Llanrug), Higher Kinnerton, Caer. Cafodd fwynhad o edrych ar lun Côr Ysgol Brynrefail yn 1956. Anfonodd hithau lun o Gôr Merched yr ysgol ar y pryd. Mae wedi cynnwys rhai enwau ond yn cyfaddef fod angen, 'Rhywun â gwell cof na mi i lenwi'r bylchau'. Rydw innau'n adnabod rhai o'r wynebâu sydd yn y llun hefyd ond mae'n braf cael dweud fy mod i fymryn yn ieuengach na'r merched, ac mai fel 'genod hŷn yr Ysgol' roeddwn i yn eu hadnabod! Os oes unrhyw un o aelodau'r côr yn medru enwi'r gweddill, anfonwch air.

Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

## Côr Merched Ysgol Brynrefail (tua 1956)



*Pob rhes o'r chwith i'r dde.*  
*Cefn:* 4, Mary Wyn Roberts; 7, Menna Pritchard.  
*Ail:* 1, Cilla Pritchard; 2, Gwenda Hughes; 5, Valmai Roberts; 6, ?? Thomas; 7, Y ddiweddar Eleanor Butler; 8, Eryl Griffiths.  
*Drydedd:* 4, Eileen Dove; 9, Heulwen Hughes; 11, Mona Roberts.

*Bedwaredd:* 1, ?? James; 2, Margaret Roberts; 10, ?? Parry; 11, Eirwen Williams; 12, Vivien Jones.

*Blaen:* 1, Mair Roberts; 2, Sylvia Thomas; 3, Mary Green; 4, Carys Evans; 5, Helen Griffith; 6, Lorna ??; 7, Gwenda Thomas; 9, Eryl Hughes; 11, Rose Ann Pritchard.

### MANTEISIWCH AR EICH OED!

## Dros 55?

Dewis o yswiriant  
yn rhoi gwerth  
eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

**Age Concern (Wales)**

**Enterprises Limited**

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

**01286 678310**

**AGE**  
*Concern*

INSURANCE  
SERVICES

All our profits  
support the work  
of Age Concern



**ORIEL  
CWM**

**Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math  
ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol  
Arddangosfa  
o luniau gwreiddiol  
gan Artistiaid Lleol

**Richard S. Humphreys**

## Royal Victoria Hotel

LLANBERIS


Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,  
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: (01286) 870253**



**GWYNANT  
PIERCE**

Cynrychion Coed:-  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol  
Uned 1, Fferm Bryn Afon

**LLANRUG**

ffôn: (01286) 650349  
(0589) 899901

## 'Un funud fach . . .' YR AMISH

Rwy'n edrych ymlaen i weld arddangosfa o luniau Keith Bowen yn Llanberis yr haf yma. Mae'n bosibl iawn bod gan lawer ohonoch luniau o'i waith yn eich cartrefi. Ond nid tirluniau cyfarwydd sydd yn yr arddangosfa hon ond casgliad o luniau o gymuned yr Amish, cymuned arbennig yn Nhalaith Pennsylvania. Treuliodd yr artist flwyddyn yn mynd a dod yn eu plith yn cofnodi bywyd y bobl arbennig hyn sydd wedi cadw eu ffydd a'u traddodiadau arbennig dros y blynyddoedd. Dyma'r gymuned ddangoswyd mewn ffilm antur o'r enw 'The Witness' rai blynyddoedd yn ôl.

Mae'n debyg bod gan amryw ohonoch hefyd luniau o waith David Woodford. Tirluniau o Eryri yn bennaf yw ei waith ef. Darllenais y dydd o'r blaen bod arddangosfa o'i waith i'w chynnal yn Lerpwl y mis nesaf. Yr hyn sydd yn arbennig am ei luniau yn ôl trefnwyr yr arddangosfa yw eu bod yn edrych i lawr ar yr olygfa o gopa'r mynydd. Mae Woodford yn gweld yr olygfa o'r top yn hytrach na'i gweld a'i darlunio o'r llawr. Mae'n cerdded y mynyddoedd yn rheolaidd ac felly'n gweld y golygfeydd o berspectif gwahanol i'r arlunydd sydd ond yn eu gweld o droed y mynydd.

Mae'r gras i weld pethau o berspectif gwahanol yn un o roddion Duw i'w bobl. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gweld harddwch y greadigaeth, ond trwy ffydd y gwelwn y Duw mawr a'i llunioedd. Mae pawb yn derbyn ryw siar o fendithion, ond trwy ffydd y deallwn mai Duw sy'n ein cynnal ac yn rhoi'r bendithion hynny i ni. Caiff y Cristion ei siar o broblemau a phoenau bywyd, ond mae'n edrych ar y rheiny o berspectif gwahanol i bobl eraill, gan wybod bod Duw yn abl i'w nerthu a'i gynnal. Yn y stormydd gwaethaf gall gredu bod Duw yn gwarchod drosto ac yn ei gadw'n ddiogel.

Mae pobl yr Amish yn wahanol o ran eu diwylliant a'u ffordd o fyw. Mae'r olwg wahanol ganddynt ar fywyd oherwydd eu ffydd, ac yn hynny o beth, gobeithio, yr ydym ninnau'n debyg iddynt.

JOHN PRITCHARD

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

### Diolchiadau

Dymuna Mrs Marina Williams, Rhosydd ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a staff y Feddygfa am eu caredigrwydd drwy ymweliadau a chardiau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac wedi iddi ddod gartref. Diolch yn fawr iawn.

Mae Mrs Katie Griffith, Fron Hyfryn, Ffordd yr Orsaf yn anfon ei diolchiadau mawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod gartref.

Dymuna Mrs Heulwen Williams, 5 Glan Moelyn ddiolch i'w holl ffrindiau a'r teulu am y caredigrwydd a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i staff Ward Ogwen a'r meddygon teulu.

Mae Mrs Katie Davies, 5 Hafan Elan yn dymuno diolch i'w ffrindiau a'i theulu am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch arbennig i Dilys ac Arthur Jones a'r holl gymdogion yn Hafan Elan. Diolch yn fawr.

Dymuna Mr a Mrs Roberts, Rhes Plas Tirion ddiolch am y caredigrwydd ddangoswyd i Harry tra yn Ysbyty Gwynedd. I'r teulu a ffrindiau am hebrwng Mrs Roberts yn ôl ac ymlaen i ymweld; ac am y cardiau a'r anrhegion. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus Ward Conwy. Diolch yn fawr i bawb.

**Genedigaeth.** Llongyfarchiadau mawr i Robin a Gwenno Williams, Sŵn-y-gwynt, ar enedigaeth mab bach, brawd i Llywelyn a Rhodri. Daeth i'r byd yn pwyso 10 pwys 3 owns!

**Y Seindorf.** Cynhelir Ffair Sbarion yn 'Feed my Lambs', Caernarfon, am 1 o'r gloch ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf. Os oes gan rywun yn y pentref eitemau addas i'w rhoi, cysylltwch ag aelodau'r Seindorf neu'r pwyllgor merched erbyn 2 Gorffennaf. Diolch yn fawr.

Cynhelir Sêl Cist Car ar fuarth Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fercher, 16 Gorffennaf. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a'r Seindorf yno hefyd i'ch diddori.

**Cyngor Eglwysi.** Dymuna aelodau'r Cynbgor ddiolch i ardalwyr Ceunant, Tan-y-coed a Llanrug am eu haelioni tuag at Cymorth Cristnogol, ac i'r casglwyr am eu hymdrechion eleni

eto. Casglwyd y swm o £780.21. **Merched y Wawr.** Nos Fawrth, Mehefin 10fed, treuliodd noson ddifyr ym mharadwys Pili Palas, Porthaethwy. Cafwyd sgwrs hamddenol a thu hwnt o ddiddorol gan y naturiaethwr Huw John Huws. Roedd y glöynod amryliw yn wledd i'r llygad a'r adar trofannol yn ymuno yng Nghôr y Wig i'n croesawu o dan arweinyddiaeth 'Charlie' y parot. Cyndyn iawn oedd neb i afael yn y neidr hirfaith ond dotio a wnâi pawb at brysurdeb y morgrug *benywaidd!* Yn goron ar y cyfan mwynhawyd pryd o fwyd amheuthun yng nghaffi Siani Flewog, gyda phaned a bisgedi Pili Pala i orffen y noson.


Diolchwyd i Huw John Huws am ddangos gwyrthiau natur o flaen ein llygaid inni gan Meryl Green. Bu'n glo cofiadwy a lliwgar i weithgareddau'r tymor. Diolchir i Nan Humphreys am y trefniadau trylwyr. Daeth tymor Mair Huws fel llywydd i ben a diolchwyd iddi am flwyddyn mor rhadlon a chyfeillgar, gan Bethanne Williams. Diolchodd Mair i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb drwy gydol y flwyddyn.

Bydd aelodau'r gangen yn dod o amgylch i gasglu tuag at Ymchwil y Galon, Gorffennaf 14-25. Bydd y gangen yn ailgychwyn ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch. Erfynnir ar i gyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni er mwyn sicrhau cangen lewyrchus a llwyddiannus. Bydd rhaglen amrywiol a diddorol ar gael — rhywbeth at ddant pawb. Felly, ymunwch a mwynhewch — bydd croeso mawr i chwi.



Tîm pêl-droed 'B' dan 9 oed a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco.

## DRAENOG




Ond does yna olwg hapus ar yr hogyn bach yma? Mae o wedi mynd am dro i MacDonalds i gael 'platiad plantos'! Dyna'r unig ffordd y câi o'r byrgar caws a'r sglodion . . . OND . . . y peth gorau o'r cwbl oedd y tegan bach Disney! Cofiwch amdano fo y tro nesa yr ewch yno am bryd . . . mae Gwil yn dal i chwilio am degan neu ddau i gwblhau'r set!

**GWYN JONES**  
**FFENESTRI ERYRI**  
**GARTH ISAF, LLANRUG**  
**(01286) 650764**

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches  
★ Byrddau Ffasia  
★ Cladio  
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

**R. M. (DIC) PARRY**  
PEINTIWR AC ADDURNWR  
PRISIAU RHESYMOL  
**TAWELFA, PENISARWAUN**  
**Ffôn: (01286) 870846**

# O SIAMBAR SELWYN

**Pan fydda i ar fordaith, a dim golwg o dir yn unman, dyna pryd y bydda i'n gweld gogoniant esgyll englyn enwog Dewi Emrys i'r 'Gorwel':**

Hen linell bell nad yw'n bod

Hen derfyn nad yw'n darfod

(Gwobrwywyd yr englyn hwn union hanner can mlynedd yn ôl yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn 1947, o dan feirniadaeth Gwenallt. Roedd 220 wedi cystadlu.)

Ydw, mi rydw i'n mwynhau mordeithiau ac mi fydda i'n treulio oriau yn edrych yn synfyfyriol tua'r gorwel ac yn gwyllo dawns y tonnau. A deud y gwir mi fydda i'n hoffi gweld y môr yn dangos ychydig o'i ddannedd a'r llong yn siglo tipyn weithiau.

Mae dwy ran o dair o'r hen blaned 'ma yn ddyfroedd, meddai'r gwybodusion. Teimlad rhyfedd ydi bod o olwg tir am dri neu bedwar diwrnod. Teimlad unig. 'Rydach chi'n dechra holi eich hun — oes 'na derfyn ar fawredd y môr. Y fordaith fawr gynta y ces i y fraint o'i gwneud oedd ar draws yr Iwerydd o Riod de Janeiro i Genoa. Nid yn unig welais i ddim tir am ddyddiau ond, yn fwy anhygoel, welais i yr un llong 'chwaith na'r un awyren.

Roedd yr ail fordaith yn gwbwl wahanol. Cychwyn o San Francisco gan alw yn Acapulco, Mecsico (i weld y deifwyr yn plymio i'r dŵr oddi ar wyneb y graig), Guatemala, Honduras a Chosta Rica, ac yna drwy Gamlas Panama i fôr y Caribi. Y ffaith fod y fordaith hon yn wahanol oedd fy mod i yng ngolwg tir bron iawn drwy gydol y fordaith, ar wahân i ambell ddiwrnod ar fôr y Caribi. Ond buan iawn y deuai glannau un o'r ynysoedd hudolus i'r golwg. Doeddwn i ddim yn teimlo'n rhy hapus ar fôr y Caribi, yn enwedig o sylwi fod yna gymylau bygythiol yn ymddangos ar y gorwel, ac roedd sibrydion ym mrig y morwydd fod 'Hurricane Harry' yn ysgwyd ei gynffon yn y cyffiniau. Os ydw i'n mwynhau gweld y môr yn dangos ei ddannedd dydw i ddim yn

dymuno cael fy hun yng nghrafangau yr un 'hurricane' na'r un teiffwn arall! O, na, dymuniad pawb sy'n mordeithio ydi cael cyrraedd y porthladd tawel, clyd yn iach a di-anaf.

Gan fy mod i'n hoffi'r môr dyna pam rydw i'n hoffi ymweld ag ynysoedd, o bosib. Y llynedd, am y tro cynta 'rioed, mi ges i gyfle annisgwyl i ymweld â ynys Jersey. Ynys lle mae'r miloedd yn heidio am eu gwyliau haf. Ynys hefyd sy'n llawn o olion hanes yr Ail Ryfel Byd. Gan fy mod i'n dyrchafu fy llygaid yn weddol aml tuag at ynysoedd arfordir yr Alban mi ges i'r profiad hyfryd o ymweld â ynysoedd yr Orkneys a'r Shetlands y llynedd hefyd, a thaflu cyfarchion i'r Old Man of Hoy wrth basio heibio.

O ddewis roedd hi'n well gen i unigrwydd a thawelwch y Shetlands a'r Orkneys na rhialtwch Jersey. Ond pe bai'n rhaid i mi ddewis byw ar un ohonyn nhw, mae'n debyg mai Jersey fyddai'r dewis. Ydi, mae talu ymweliad a rhywle yn gwbl wahanol i orfod byw yno.

Gwledydd o ynysoedd yw gwledydd Scandinavia ac ar fordaith i St. Petersburg (yr hen Leningrad) y llynedd fe ges i'r cyfle am y tro cynta erioed i dreulio amser byr mewn prifddinasoedd fel Stockholm, Oslo, Helsinki, Copenhagen a Tallin. Ydi, mae'n braf cael teithio'r byd mewn gwesty symudol. Peidiwch â phoeni am bod yn 'bored' gan fod yna ddigon o bethau i'ch diddanu ar y llongau hyn — a gormod o fwyd!

I ble eleni? Dyna gwestiwn a ofynnir i mi gan nifer ohonoch. Wel, wrth fynd yn hŷn dydw i

## Y GORWEL

Wele rith fel ymyl rhod — o'n cwmplas,  
Campwaith dewin hynod;  
Hen linell bell nad yw'n bod,  
Hen derfyn nad yw'n darfod.

Dewi Emrys

(Englyn buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn 1947 (hanner canrif yn ôl.)

ddim yn or hoff o dywydd poeth, felly pan fyddwch chi'n darllen hwn mi fydda i — gobeithio — mor agos ag yr â i byth i'r North Pole ac wedi croesi ffin yr Arctic Circle.

Siawns na fydd hi'n ddigon oer i mi yn fan'no!

Wel, i ble bynnag yr ewch chi ar eich gwyliau eleni gobeithio y cewch chi amser hapus a

chofiadwy, a chofiwch yr hen ddihareb Sieiniaidd 'na: 'Mae'r sawl sy wedi teithio mil o filltiroedd yn llawer doethach na'r sawl sy wedi darllen mil o lyfrau'.

Wel rŵan, 'ta — pa lyfa â' i efo fi i'r Arctic oer 'na? Tân yn Llŷn, 'ta Cyn Oeri'r Gwaed!

Gwyliau dedwydd i bob un ohonoch.

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**

(Eric Morris)

**Ffôn: (01286) 675175 a 677858**



**J.M.  
JONES  
A'I FEIBION**

**GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU**

**Y SGWÂR  
LLANRUG**

**Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol  
Cerrig o bob  
math ar gael**

**Ffôn: (01286)  
672898 (dydd)  
676285 (nos)**

**Bistro**  
**LLANBERIS**  
**Ffôn: 871278**

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

**LLE DA I WLEDDA**

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70)  
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas  
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion  
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro**  
**Nos Wener olaf bob mis**

**Alwyn a Sarah Jones**

**RACCA  
PENISARWAUN**

★ **Blodau ar gyfer pob  
achlysur**

hefyd

★ **Dewis da o Lysiau  
Fferm**

★ **Wyau Free Range**  
Ar agor saith diwrnod



**870605**

**LLYSIAU AR  
GYFER PICLO**

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Michaela Radnor, 7 oed, a enillodd Tlws Ysgol Maes yr Yrfa am y cynnyrch gorau yn yr Adran Tecstilau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro Islwyn.

**Cydymdeimlad.** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Gillian Morris, Rhys a Llŷr, 2 Bryn yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.

**Llongyfarchiadau** i blant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau ysgol ac yn y coleg. Dymunwn pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

**Diolch.** Dymuna Gillian, Rhys a Llŷr Morris, Argoed, 2 Bryn ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli tad a thaid annwyl, Dewi Williams. Mae'r rhoddion ariannol a dderbyniwyd er cof yn mynd tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, lle y derbyniodd ofal a charedigrwydd arbennig yn ystod ei waeledd.

**Undeb y Mamau.** I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor cynhaliwyd, nos Lun, 2 Mehefin, noson Moes a Phryn yng Nghanolfan Hafan Elan, Llanrug. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwedd. Yr oedd rhai materion i'w trafod. Cytunodd rhai o'r aelodau i fod yn bresennol yn y cyfarfod a gynhelir ym Machynlleth. Dyddiad te a mafon yn Llanrug yw 26 Gorffennaf. Cyn cael lluniaeth, a oedd yng ngofal aelodau Cwm-y-glo, cafodd pawb gyfle i brynu oddi ar y stondin. Diolchwyd i bawb am ddod i'r cyfarfodydd gydol y flwyddyn gan Mrs Enid Taylor. Rhoddwyd y rafflau gan Mrs Edwards, Mrs M. Roberts a Mrs Orritt ac fe'i henillwyd gan Karen Birbeck, Mrs Dorothy Jones a Mrs Joan Williams.

**Newyddion o Ysgol Cwm-y-glo.** Yn y gystadleuaeth Rygbi'r Ddraig, a gynhaliwyd i'r chwe ysgol gynradd yn nhalgylch Brynrefail, daeth tîm yr ysgol yn drydydd. Diolch yn fawr i

Mr Alan Thomas am drefnu'r gystadleuaeth ac i Mr John Paget, Waunfawr am roi o'u hamser i hyfforddi'r bechgyn — a'r genethod!

Da iawn Mathew Roberts, Bl. 5, am ddod yn ail am daflu pêl dan 12 oed; a Brendan Davidson, Bl. 4, ddaeth yn ail yn y Naid Hir dan 10 oed. Roeddynt yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd, Cylch Arfon. Pob hwyl yn y Rhanbarth ym Mangor.

Bu tîm pêl-droed yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco. Da iawn chwi am ymdrech arbennig — gêm gyfartal 0-0 yn erbyn tîm Llanberis a thîm Bethel. Yna colli 2-0 yn erbyn tîm Llanrug. Diolch i Mr Richard Lloyd Jones eto am drefnu'r noson lwyddiannus hon.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mai oedd Miss Carys Williams, Bryn a Mrs Jean Hughes, Llain Gro. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Hilda Orritt, ein cogyddes, sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith. Gobeithiwn hefyd ei bod yn cryfhau ac yn gwella.

Mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill cyn diwedd y tymor — Helfa Drysor, nos Wener, 4 Gorffennaf; Noson Agored i Rien; Dysgu Noddedig i'r Plant; Mabolgampau; Sioe i'r Babanod; Trip i Sŵ Caer; Disgo Diwedd Blwyddyn; Bingo wedi'i drefnu gan Bl. 6; a Gwasanaeth Arbennig i ffarwelio ac i ddiolch i Bl. 6. Fel y gwelwch mae gennym fis prysur iawn o'n blaenau!

Careu ddiolch i bawb o'r gymdogaeth a'n cefnogodd fel ysgol yn ein holl weithgareddau ar hyd y flwyddyn addysgol. 'Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Cymdeithas y Chwiorydd.** Cyfarfu'r Gymdeithas o Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail yn y Ffestri, nos lau, Mehefin 12fed. Llywyddwyd gan Mrs Verna Jones. Anfonodd gofion at rai o'r chwiorydd oedd yn methu â bod yn bresennol ynghyd â chofion arbennig at Mrs Jennie A. Roberts oedd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwyd gwellhad buan i Rhys Roberts, wŷr Mrs Jennie Hughes, yn dilyn damwain a gafodd yn ddiweddar. Roedd y defosiwn yng ngofal Miss Alice Williams. A ninnau ar drothwy tymor y gwyliau arweiniodd ein meddyliau i wlad Groeg gyda chyflwyniad o hanes Paul yn Athen. Y siaradwr gwadd oedd Mr Robin Jones, Bethel. Dewisodd y tesun 'Gwaith a Diddordebau' a llwyddodd i'n argyhoeddi, drwy olrhain y gwahanol alwedigaethau a ddilynodd, sut yr oedd ei ddiddordebau wedi eu gwau i'w ddyletswyddau dros y blynnyddoedd a'r cyfan yn deillio o'r gwreiddiau gafodd ym mro ddiwylliedig Cwm Penmachno. Diolchwyd iddo am ei sgwrs ddiddorol gan Mrs Lowri P. Roberts Williams. Paratowyd y baned gan Mrs Dilys Jones a Mrs Lowri P. Roberts Williams, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 10fed, a'r siaradwr gwadd fydd Mr Norman Williams, Godre'r Coed. **Sefydliad y Merched.** Dan lywydd-

iaeth Mrs Pat Jones, cafwyd cyfarfodydd o'r gangen leol nos Lun, Mehefin 16eg. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Elaine Powell o Ddwyran, Môn yn rhoi profiad o Yoga i'r aelodau. Mrs Eleanor Williams a Mrs Carol Houston oedd yng ngofal y baned ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jennie Hughes, gan Mrs Carol Houston.

Nos Lun, Mehefin 23ain, cynhelir cyfarfod arbennig o'r gangen, pryd y disgwylir Mrs Peggy Jones, Waunfawr i roi adroddiad o'r Cyfarfod Blynnyddol gynhaliwyd yn Birmingham.

I gloi tymor yr haf bydd y gangen yn ymgynnull ym Mharc Glynllifon. Trefnir noson o gyfeiriannu dan arweiniad Mrs Anita Lon, Tan yr Onnen. Yn dilyn y gweithgaredd bydd cyfle i fwynhau lluniaeth yn y Bwyty ar y safle.

**Eglwys M.C. Brynrefail.** Bydd trefn y cyfarfodydd yn ystod mis Gorffennaf fel a ganlyn:

6: CYMANFA HENADURIAETH ARFON yn Jeriwsalem, Bethesda am 6 p.m. Arweinydd: Mr T. Gwynn Jones, Porthaethwy. (Recordir gan gwmni 'Intrada' ar gyfer y rhaglen deledu 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'.)

13: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel (10)

20: Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (5.30)

27: Parchg Alwyn Roberts, Tregarth (10)

**Plygu'r Eco.** Diolch arbennig i'r tîm lluosog ddaeth i'r Ffestri i blygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Gwnaed y gwaith mewn record o amser unwaith eto. Diolch yn fawr i bawb.

## C \* A \* R \* N \* I \* F \* A \* L L \* L \* A \* N \* B \* E \* R \* I \* S

GORFFENNAF 13 - 19, 1997

Nos Sul

★ NOSON O GÂN' yn Eglwys St. Padarn ★  
am 8 o'r gloch gyda Chôr Meibion Colwyn

Nos Lun:

★ GYRFA CHWIST yn y Ganolfan am 7.30 ★  
★ CYSTADLEUAETH PŴL yng Nghlwb ★  
Cymdeithasol Llanberis a'r Cylch am 8

Nos Fawrth:

★ MABOLGAMPAU ar Ddôl y Goden am 6 ★  
★ CWIS yng Ngwesty Tywysog Cymru am 9

Nos Fercher:

★ DISGO'R PLANT yn y Ganolfan 6.30 - 8.30 ★  
★ CYSTADLAETHAU DARTIAU yng Nghlwb ★  
Cymdeithasol Llanberis a'r Cylch am 8

Nos Iau:

★ GÊMAU PÊL-DROED PLANT AC OEDOLION ★  
★ a PHÊL-RWYD I FERCHED am 6.30

Nos Wener:

★ BINGO yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis ★  
★ a'r Cylch am 7.30

Dydd Sadwrn:

★ ★ Y CARNIFAL ★ ★  
Yr Orymdaith yn cychwyn ger Gwesty'r Prince am 1 o'r gloch  
Agorir y Carnifal gan JUDITH HUMPHREYS (Pobol y Cwm)  
CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI • GORNEST CAWR Y WYDDFA  
ARWERTHANT CIST CAR • SEINDORF DEINIOLLEN • BOLTON  
SCOTTISH PIPE BAND • DAWNSIO LLINELL AMERICANAIDD

PRIF NODDWYR Y CARNIFAL: FIRST HYDRO



## ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwyd nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin

fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth,

I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri

Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.

am fwy o fanylion cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

## Bysus Ieuan Williams

Hawdd iawn fyddai i rywrai dybio bod cwmni bysus newydd wedi ei gychwyn yn yr ardal hon yn ddiweddar. Mae mwy a mwy o fysis melyn llachar i'w gweld tua Deiniolen a Llanberis. Ond nid cwmni newydd sy pia'r bysus hynny ond cwmni sydd wedi hen sefydlu yn y fro ers blynyddoedd.

Mae Ieuan Williams, Deiniolen wedi penderfynu newid lliw bysus ei gwmni o'r gwyn, coch a glas a ddefnyddiodd ers blynyddoedd i'r melyn llachar newydd. Ac yn ystod y misoedd diwethaf mae'r bysus, o un i un, wedi cael eu côd newydd.

Sefydlodd Ieuan Williams ei gwmni yn 1969, ond nid dyna ddechrau'r stori 'chwaith. Mae'n amlwg bod cerbydau a gyrru wedi bod yng ngwaed ei deulu ers blynyddoedd cyn hynny. Arferai ei dad, John Eban Williams, yrru bysus hen gwmni Deiniolen Motors am rai blynyddoedd pan oedd Mr John Hughes, yn berched ar y cwmni hwnnw. Gweithiai John Eban Williams yn y chwarel ond byddai'n gyrru bysus hefyd yn y cyfnod hwnnw. Bu farw yn ŵr ifanc 44 oed yn 1944.

Yn ddiweddarach sefydlodd Dafydd Glyn Williams, brawd Ieuan, gwmni lorïau yn 1960, a rhan o'r gwaith oedd cario brics o adeiladau'r chwarel yn y Gilfach Ddu yn Llanberis. Yna yn 1965 ehangodd Dafydd Glyn y busnes trwy brynu bws a pharhau wrth gwrs hefo'r lorïau. Bu yntau farw yn ŵr ifanc ym mis Medi 1966. Yr oedd Ieuan wedi bod yn gyrru i'w frawd ar hyd y blynyddoedd a phenderfynodd sefydlu ei fusnes ei hun wedi marwolaeth Dafydd Glyn. Prynodd un o ddau fws ei frawd a chychwyn y busnes newydd ym mis Ionawr 1969. Mae'n dal i gofio mai bws Ford 41-sedd a fu unwaith yn eiddo i gwmni Wallace Arnold oedd y bws cyntaf hwnnw.

Yn y blynyddoedd cynnar cedwid bysus y cwmni yn llythrennol ar ochr y lôn. Roedd y ffordd tua groeslon Racca wedi'i gwella ac ar yr hen lôn y

cedwid y bysus. Roedd cwmni Deiniolen Motors wedi ei brynu gan Purple Motors, Bethesda yn niwedd y 40au. Tua diwedd y 70au roedd y cwmni hwnnw ar werth eto ac ystyriodd Ieuan Williams ei brynu. Ond yn hytrach na phrynu garej a bysus Deiniolen Motors penderfynodd brynu Glanffrwd, hen dŷ gweinidog capel Cefnywaun, a datblygu llain o dir gerllaw yn gartref i'r busnes, a phrynu yr un pryd ddau fws newydd i ehangu'r cwmni. Yn ddiweddarach, yn 1985, â Deiniolen Motors yn dal ar werth, prynodd Ieuan y cwmni oddi wrth Tom Davies, Purple Motors.

Busnes teuluol yw'r cwmni. Mae Mrs Evelyn Williams, gwraig Ieuan, a'u mab Haydn yn cydreoli'r cwmni ag ef. Mae Haydn wedi gweithio efo'i dad ers gadael yr ysgol gan gychwyn trwy lanhau'r bysus nes bod yn ddigon hen i sefyll prawf gyrru. Ar hyn o bryd cyflogir wyth o weithwyr eraill, yn cynnwys un mecanic, Cecil Jones, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw. Y ddau yrrwr sydd wedi bod efo'r cwmni hwyaf yw Dafydd Owen, sydd yno ers 13 mlynedd, a Gwynfor Jones sydd wedi bod yno am gyfanswm o 18 mlynedd. Mae llawer iawn o yrrwyr cwmnïau eraill yr ardal wedi cael eu profiad cyntaf wrth lwy bws cwmni Ieuan Williams.

Erbyn hyn gwasanaethau lleol yw prif faes y cwmni. Cynhelir gwasanaeth rheolaidd rhwng Llanberis, Deiniolen a Bangor, a rhwng Rhiwlas, Y Felinheli a Bangor. Naw o fysis sydd yno ar hyn o bryd. Ar un cyfnod bu yno un ar bymtheg. Roedd hynny yn niwedd yr 80au, yn y dyddiau pan oedd Ieuan Williams yn cynnal gwasanaeth dyddiol



rhwng Caergybi a Llundain mewn cydweithrediad â cwmni Gwyddelig, yn ogystal â rhedeg tripiâu tramor. Cofia Ieuan ei hun ymweld â'r Iseldiroedd, Yr Almaen, Y Swisdir, Awstria, Luxembourg, Ffrainc a'r Eidal ymysg gwledydd eraill. Bu'n rhaid cwtogi ar deithiau o'r fath a lleihau'r cwmni yn gynnar yn y 90au, a hynny'n bennaf yn dilyn cyngor y meddyg wedi i Ieuan gael ei daro'n wael. Erbyn hyn mae'r cwmni yn mentro eto i fyd y teithio tramor. Pan aeth Ieuan drosodd i Ffrainc yn ddiweddar am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd roedd wedi rhyfeddu at y gwahaniaeth mawr sydd erbyn hyn yn safon y ffyrdd o'u cymharu â'r hyn a gofiai ef ugain mlynedd a rhagor yn ôl.

Mae ambell daith yn aros yn y cof. Un o'r rheiny yw taith tim pêl-droed Llanberis i Gaerleon ar gyfer y gêm fawr yng Nghwpan Amatur Cymru yn 1964. Yn y

60au hefyd fu'n teithio'n rheolaidd i Gaerdydd gyda rhai o ddiddanwyr ac actorion amlwg Cymry. Yn y dyddiau hynny roedd pob ffilmio ar gyfer teledu Cymraeg yn digwydd yng Nghaerdydd, a gwaith Ieuan fyddai gwneud yn siŵr bod pawb yn cyrraedd yn ddiogel yr holl ffordd o'r gogledd ar gyfer y recordio ar benwythnosau.

Os yw lliw'r bysus yn wahanol erbyn hyn, fe allai enw'r cwmni fod yn wahanol hefyd. Yn wreiddiol Foel Coaches oedd yr enw a roesai Ieuan Williams ar y cwmni. Ond penderfynodd newid yr enw gan fod Voel Coaches i'w gael yn Dyserth. Beth bynnag yr enw, mae'n dda gweld bod y cwmni yn parhau i gynnig gwasanaeth i'r fro a gwaith i bobl lleol bron i 30 mlynedd ers ei sefydlu. Dymuna Ieuan ddiolch i drigolion bro'r Eco am eu cefnogaeth parhaol i'w gwmni dros y blynyddoedd.

### DRAENOG



Mae'r 'Cymry ar Wasgar' wrth eu bodd pan ddaw côr neu barti o'r 'hen wlad' i'w hardal hwy a heidiant yno i'w croesawu. Dychmygwch falchder gŵr o Lanberis fu'n alltud o'r pentref ers blynyddoedd . . . yng NGHAERNARFON! Darllenodd yn y papur newydd bod Cwmni

Drama Llanberis yn ymweld ag Ysgol y Dre — 'TONIGHT'. Doedd fyw colli'r cyfle i weld hen gydnabod. Cyrhaeddodd yr ysgol . . . a fynta oedd y cynta yno. Y fath lwc . . . câi ddewis y sedd orau iddo'i hun . . . OND . . . ddaeth neb arall ar gyfyl y lle!

Wedi mynd adre sylwi mai yn y papur WYTHNOSOL y gwelodd yr hysbys a bod y Cwmni wedi bod yno y noson cynt. Rhyfadd iddo wneud y fath gamgymeriad rhwng y *Daily Post* a'r *Herald* a fynta wedi cadw siop bapur newydd am flynyddoedd.

## GORSAF BETROL Esso BERAN

### DEINIOLEN

**Ffôn: (01286) 871521**

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd • Wyau  
Nwyddau Groser • Melysion

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**



Harddwch eich cartref gyda

## FFENESTRI CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd  
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

**(01286) 678618 (dydd)  
(01248) 670081 (nos)**



Uned 5, Griffiths Crossing  
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



## NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

**Gradd:** Llongyfarchiadau i Owen Tudur ar basio arholiadau B.Sc. Bio-Cemeg.

**Carnifal:** Bydd Carnifal Nant Peris yn cael ei gynnal nos Wener, Gorffennaf 25. Bydd yno gystadleuaeth gwisg ffansi, gêmâu, castell neidio a stondinau. Croeso mawr i bawb. Brenhines fach y Carnifal eleni yw Chantel, 1 Bro Deiniol. Pob lwc iddi.

**Llongyfarchiadau** i Llinos Haf ar ei swydd newydd yn ysgol Llanrwst. **Gwellhad Buan.** Dyna ddymunwn i Wendy a Caron Jones (Tan-y-bryn gynt) yn dilyn y ddamwain tra ar eu ffordd i ymweld â'r ardal.

**Ymryson.** Cafwyd dau ddiwrnod prysur yn Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch a gynhaliwyd dros Wyliau'r Banc. Eto eleni gwelwyd cystadleuwyr o bob rhan o Gymru a rhai o ogledd Swydd Efrog. Da oedd gweld y cystadleuwyr ieuengaf yn dod i'r brig. Cipiwyd y tlysau lleol gan John Williams, Bethel, a Dafydd Pritchard, Nant Peris am yr ail flwyddyn yn olynol; ac i'r ieuengaf un, Wil Mullane, Nant Peris, ddeuddeg oed, yr aeth Cwpan Llwyncoed.

Dyma'r canlyniadau:

**Dosbarth Agored, Cwpan y Brodyr Morris:** 1, Aled Owen, Corwen (Roy);

2, E. L. Morgan, Aberystwyth (Smotyn); 3, Hefin Jones, Rhydymain (Meg). **Ail ddosbarth, Cwpan Wavell Roberts:** 1, R. Vaughan Hughes, Rhosmeirch (Roy); 2, Micky Lee, Caerhun (Roy); 3, J. E. Evans, Llangefni (Gel). **Tarian Gwesty'r Fictoria:** Dafydd Pritchard, Nant Peris. **Dosbarth lleol, Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa a Cwpan Gwesty Dolbadarn:** 1, John Williams, Bethel (Jill); 2, John N. Pritchard, Nant Peris (Bill); 3, Elwyn Williams, Penisarwaun (Sbot); 4, Donald Pritchard, Llanrug (Judy); 5, Alan Roberts, Llanberis (Jess); 6, W. A. Williams, Bethel (Ben). **Cwpan Rhedwyr Eryri (bugail gorau):** Cyril Humphreys, Llanfachreth (Nap). **Cwpan R. Williams, Mynytho (gorau dan 25 oed lleol):** Stephen Williams (Jab). **Tlws Cwmni Tithebarn (gorau dros 50 oed lleol):** Elwyn Williams. **Cwpan Llwyncoed (gorau dan 21 oed):** Wil Mullane (Don).

Enillwyd y raffl gan: 1, M. W. Davies, Rheilffordd yr Wyddfa; 2, Billy, Siop Bethel; 3, Tom Davies, Llys Alaw, Ffordd yr Orsedd, Llanrug; 4, 01248 810268; 5, Vera Jones 01766 539671; 6, Marian, d/o Ruthin Motors; 7, Mari Pierce, Glanrafon, Pontrug; 8, Lily Stefmord, Bangor; 9, John Owen, Mynydd Llandegai; 10, Bell, Talysarn; 11, Nerys 01286 830055; 12, Alan Mummery; 13, Siân, Pwllheli.

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalydd am eu cefnogaeth.

## PEIDIWCH A GORI AR STORI

**ANFONWCH HI I'R ECO**  
(erbyn nos Fawrth, 26 Awst)

## BEDD HOGYN O LANBERIS



Tynnwyd y llun uchod ar ddydd Llun y Pasg eleni o fedd John Hays, Victoria Yard, Llanberis a laddwyd ar 19 Medi 1944 yn 24 mlwydd oed. Ar y chwith gwelir Morwena Williams, Llanfairpwll ac ar y dde Lily Hayes Hughes o Llangefni. Mae bedd John ym mynwent filwrol Adegan Canadian War Cemetery, ger Brugge, Gwlad Belg. Tynnwyd y llun gan Eric W. Owen, Rhoscolyn.

## Mantolen Ariannol Eco'r Wyddfa

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 MAWRTH 1997

### INCWM

|                                      |                  |
|--------------------------------------|------------------|
| Gwerthiant                           | £5364.56         |
| Hysbysebion                          | £8243.00         |
| Llai darpariaeth ar gyfer dyledion** | 2808.00          |
|                                      | 5435.00          |
| Rhoddion                             | 566.50           |
| Grantiau:                            |                  |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg               | 1000.00          |
| Cyngor y Celfyddydau                 | 250.00           |
| Cyngor Cymuned Llanberis             | 250.00           |
| Cyngor Cymuned Llanrug               | 500.00           |
| Cyngor Cymuned Llanddeiniolen        | 100.00           |
|                                      | 2100.00          |
| Rhannu Tafenni                       | 30.00            |
| Llog                                 | 18.32            |
|                                      | <b>£13514.38</b> |

### GWARIANT

|                             |                   |
|-----------------------------|-------------------|
| Argraffu                    | 15130.49          |
| Cost Ffotograffiaeth        | 129.44            |
| Post                        | 259.19            |
| Papur a Labelau             | 8.00              |
|                             | <b>£15527.12</b>  |
| <b>COLLED am y flwyddyn</b> | <b>(£2012.74)</b> |

\*\*Gan fod nifer o'r dyledion am hysbysebu yn profi'n anodd iawn i'w casglu, er i bob ymdrech gael ei wneud, rhaid darparu ar gyfer symiau sy'n debyg o fod yn ddyledion drwg. Mae'r dyledion wedi croni dros y tair blynedd ddiwethaf.

### MANTOLEN AR 31 MAWRTH 1997

#### DYLEDION I'R ECO

|                           |                 |
|---------------------------|-----------------|
| Hysbysebion               | £7553.50        |
| Llai Cronfa Dyledion Drwg | 2808.00         |
|                           | <b>£4745.50</b> |
| Arian Gwerthiant          | 500.00          |
| Banc                      | 289.11          |
|                           | <b>5534.61</b>  |
| Dyledion yr Eco           | <b>4135.18</b>  |
| Wrth gefn                 | <b>£1399.43</b> |

G. HUGHES, Trefnydd Ariannol, 22/06/97

## DRAENOG



Glywsoch chi bod yr Amgueddfa Lechi wedi gosod cawodydd newydd at iws y gweithwyr? Dim mwy o gario llwch a baw'r gwaith adra ar ddiwedd dydd. Roedd 'na un yn benderfynol mai fo fyddai'r cynta i ddefnyddio'r gawod... ac i mewn ag o efo'i sebon, ei shampŵ a'i dywel... OND... doedd o ddim wedi sylwi nad oedd y peipiau dŵr wedi'i cysylltu... a chawod sych gafodd o y diwrnod hwnnw. Ond rhaid peidio bod yn waMAL. DWYN anfri arno fyddai hynny.

## Yn yr Ardd . . .

Dyma fis y rhosynnau. Mae gennyf un goeden hardd iawn na fedraf gofio ei henw. Mae'n debyg i flodau gwyllt. Mantaish fawr y goeden hon yw na chaiff ei phoeni gan y smotyn du sy'n bla ar rosod eraill. Mantaish arall yw nad oes raid bod yn orofalus efo'r toriadau. Dyma rosod didrafferth iawn, ond mae eu persawr yn fendigedig.


Mae'r rhosyn mynydd sydd yn y bordor bach o flaen y tŷ yn hardd iawn hefyd. Felly hefyd y rhododendron. Fy ffefryn i o blith y llwyni hyn yw'r *potentilla*. Maent yn blodeuo trwy'r haf, yn flodau melyn tlws. Rwy'n hoff hefyd o flodau glas y *carex*, y llwyn olaf i flodeuo yn yr haf cyn daw'r rhew. Roeddwn yn ofni fy mod wedi colli hwn, ond mae hwn, a'r lafant pêr yn fyw, diolch byth.

Mae'r potiau wedi eu gwagio o flodau'r gwanwyn erbyn hyn. Manawyd y bugail, a mân flodau eraill sydd yn y potiau bellach ac maent yn lliwgar iawn. Mae Peter Surridge, colofnydd y *Daily Post*, yn awgrymu tocio ym mis Awsg a chymryd toriadau. Maent yn hawdd i'w gwreiddio yn yr ardd hyd yn oed.

Mis y sioeau fydd mis Awst a dyna wled i'r llygad fydd gweld ffrwyth llafur y garddwyr proffesiynol a fu'n brysur yn tyfu bwyd ar gyfer y gaeaf. Mae arnaf i ofn na allaf wneud dim felly, dim ond tyfu tipyn o flodau.

Hwyl ar y garddio.

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**



Bu raid i un dyn bach o Lanberis fenthycu pâr o sgidia gan gyfaill yng Nghaernarfon er mwyn cael mynd i'r clwb nos newydd. Roedd o wedi'i rwystro rhag mynd i mewn yn ei bâr o 'trainers' ei hun. Gobeithio wir, Kevin, na wnaeth neb *stampio* ar draed dy ffrind tra roedd o'n brysur efo'r carioci yr ochr arall i'r Maes.

## CARNIFAL LLANBERIS

Cynhelir Carnifal blynyddol Llanberis eleni ddydd Sadwrn, Gorffennaf 19. Mae'r Pwyllgor wedi trefnu wythnos lawn o weithgareddau sy'n cychwyn efo'r NOSON O GÂN a gynhelir eleni yn Eglwys St. Padarn am 8 o'r gloch, nos Sul, Gorffennaf 13.

Mae'r Carnifal yn denu cannoedd o bobol bob blwyddyn i Lanberis, a chafwyd dyddiau llwyddiannus iawn bob tro. Yr unig bryder sydd gan y Pwyllgor yw bod llai o gystadleuwyr yn ddiweddar yng nghystadlaethau GWSIG FFANSI.

Er mwyn denu rhagor o gystadleuwyr eleni mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cynnig gwobrau ariannol uwch. Bydd gwobrau hael i'r buddugwyr ym mhob categori. Mae'r Pwyllgor hefyd am ei gwneud yn haws i bobol a phlant gystadlu trwy drefnu bod gwisgoedd ar gael i'w llogi. Bydd gwisgoedd o bob math ar gael yn Y Ganolfan Gymunedol nos Iau, Gorffennaf 17, rhwng 4 a 9 o'r gloch. Bydd angen talu am eu llogi, ond bydd y Carnifal yn rhoi tocyn £2 tuag at y gost i'r 50 cyntaf i'r felin.

Pwy ydi Cawr y Wyddfa? Pwy yw dyn cryfaf y fro?

Cawn wybod gobeithio yn y Carnifal. Cynhelir cystadleuaeth arbennig i ddod o hyd i'r dyn cryfaf ar faes y Carnifal. Bydd y gornestau yn cynnwys tynnu rhaff, reslo sumo, codi a thaflu pwysau, 'carreg orchest'. Rhwir tlws arbennig i'r enillydd.

Prif noddwyr gweithgareddau'r Carnifal eleni yw Cwmni First Hydro; ac agorir y Carnifal yn swyddogol gan Judith Humphreys (Dr Rachel yn 'Pobol y Cwm').

## BRYNREFAIL YW'R GORAU

Ar dudalen 18 y rhifyn hwn ceir hanes Mabolgampau Ysgol Brynrefail. Ddydd Llun, Mehefin 23, aeth carfan o ddisgyblion yr Ysgol i gystadlu ym Mabolgampau Gwynedd a gynhaliwyd yn Nhreborth, Bangor.

Roedd yn brofiad arbennig iddynt gael cystadlu ar y trac newydd yno yn erbyn disgyblion ysgolion uwchradd eraill y sir.

Daeth llwyddiant i ran criw Ysgol Brynrefail gan mai nhw enillodd y gystadleuaeth gyfan.

Llongyfarchiadau mawr i'r Ysgol ac i bawb oedd yn rhan o'r fuddugoliaeth.

## HWYL DROS YR HA'

Dymunwn yn dda i drefnwyr amrywiol weithgareddau'r haf trwy'r fro. Gobeithio bydd eich Carnifal, ras, sioe, ffair neu gyngerdd yn llwyddiant mawr.

Beth am wneud yn siŵr y bydd cofnod o'r digwyddiad yn rhifyn nesaf o'r *Eco*.

Anfonwch yr hanes atom erbyn nos Fawrth, Awst 26. A chofiwch am gamerâu yr *Eco* er mwyn cael ambell lun o'r digwyddiad hefyd.

Daw'r rhifyn nesaf o'r Wasg nos Iau, Medi 4.

Gwnewch yn siŵr ei fod yn cynnwys eich stori chi.

## LLYTHYR O'R 'MERICIA

Un arall o'r llythyrau a anfonwyd gan OWEN ROWLANDS (a fagwyd yn Hafod, Llanberis) at ei frawd, William, wedi i Owen ymfudo i'r America yn 1883 . . .

Cambria,  
Wis.  
Dec. 18th, 1883

Annwyl frawd,

Derbyniais dy garedig lythyr yr wythnos ddiweddar, a derbyniais un oddi wrth James yr un pryd. Yr oeddwn yn bur falch o honynt. Yn wir dyma y rhai goraf a dderbyniais etto oddi yna ym mhob ystyr. Yr n peth, yr oedd yn dipyn o waith darllen arnynt. Byddaf yn hoff iawn o lythyr a thipyn o waith darllen arno, achos y mae eithder y ffordd yn peri i un esgus go dda dros lythyr maith, onid yw?

Yr oedd yn wir dda gennyf ddeall eich bod mor iach a chysurus fel teulu, gallaf innau ddweud yn debyg i chwithau yna ar y pen hwnnw, fy mod yn hollol iach yn dal o hyd.

Yr oedd yn ddrwg gennyf ddeall fod danfon y defaid wedi gwneud cymmaint o'i ôl arnat, a hynny y tro cyntaf erioed. Ond yr oeddwn yn deall dy fod wedi cael gwellhad o'r diwedd. Yr wyf yn sicr iawn fod golwg rhyfedd iawn, fel yr oeddyt yn dweud, arnat yn mynd trwy Caernarvon Depot, a dy ben yn noeth, a chi at dy gwtyn. Job go lidowgrwydd yn wir ydyw danfon defaid. Y mae llawer o boen a thrwbwl gyda hwynt, yn enwedig tua amser dychweliad adref.

Yr oedd yn ddrwg gennyf ddeall am yr Hen Blas Coch, yr hen fachgen. Yr wyf yn sicr ei fod yn filan ofnadwy. Yr oeddwn yn deall ei fod wedi cael digon o amser i ddarllen fy llythyr. Yr oedd rhywbeth hynod yn fy llythyr fod adref yn ei ddisgwyl felly.

Y mae yn bur wahanol arnaf fi eleni, rhagor y llynedd. Nid wyf yn gwneud bron dim ond chorce yn y gauaf yma. Codi o hono foi tua 8 o'r gloch, a myned i fwydo y ceffylau cyn breakfast, bwydo y gwartheg, y moch a'r defaid, a godro ar ôl hynny, ond cofia, dyma fy ngwaith yn un o dri, a gelli feddwl ei bod yn bur ysgafn arnaf.

Yr oeddyt yn holi yn arw iawn arnaf mewn llythyr pa faint oedd fy mhwsau. Yr un beth a'th hysbysais, ond yn awr y mae gennyf beth gwahanol i'w ddweud wrthy. 5

oeddwn wedi ei ychwanegu at fy mwysau yr adeg honno, ond yn awr yr wyf wedi ychwanegu 8 bwys yn rhagor at y 5 eraill fel yr ydwyf yn awr yn pwysau anferthol 158.

Yr oeddyt yn dweud y buaset yn falch iawn o gael fy photo yn y lliw glas yma. Pe buaswn yn cael chance i wneud hynny buaswn yn sicr o wneud gyda phleser4, a'i anfon drosodd i chwi. Yr wyf yn sicr y buasai yn destyn chwerthin i chwi am fis cyfan.

Yr wyf yn meddwl myned i lawr i Portage yn bur fuan i gael fy Citizen Papers, gyda Tom, ac yr wyf yn meddwl am gael tynnu fy llun yno yr adeg honno, er mwyn i chwi gael gweld brawd o Ianci am dro.

Y mae Portage yn 20 milldir o Cambria yma i'r Gorllewin. Y maent yn dweud i mi ei bod yn dre bur fawr, ac nid oes le yn nes na hynny i mi gael gwneud fy hun yn Citizen. Bydd gennyf lawer o bethau i lefaru amdanynt ar ôl bod i lawr yno.

Yr oeddyt yn awgrymu hefyd mewn perthynas i 'Amseroedd' Evan Jones. Wel, nis gwn pa beth i feddwl o hono yn iawn. Yn bod yn barod buaswn yn falch iawn o gael holi mwy nag ydwyf wedi ei wneud mewn perthynas i amryw o bethau, achos peth go bwysig yw ysgrifennu i bapur newydd, heb feddwl ac ystyried cymmaint o lygaid a fydd arno. A'r hyn fyddai o fwyaf tebyg i rywun o Cambria fod yn ei ddarllen yn pen y 15 diwrnod. Ond gwnaf addaw gwneud rhywdro cyn diwedd Mawrth, ar ôl cael holi dipyn mewn cysylltiad a'r Capelydd a phethau felly.

Yr ydym wedi cael tywydd braf anghyffredin trwy y gauaf hyd yn hyn, ond heddyw y mae wedi newid yn arw iawn. y mae wedi bwrw eira drwy y dydd, ac wedi rhewi yn bur galed oddi tano cyn hynny, fel y bydd yn bur hwylus i ni ridio yn y yn y sledges i ba le bynnag y bydd i ba le bynnag y bydd arnom angen am fyned, ond nid yn rhyw oer iawn. Bûm yn ei theimlo yn oerach o lawer yna lawer gwaith. Pan y bydd yn oer iawn ni bydd neb yn meddwl gwneud dim ond llenwi eu hunain a'r anifeiliaid â digon o fwyd. Yn wir, bwyta ydyw y gwaith hwyaf o lawer y byddaf yn ei wneud yn awr ers tua 3 wythnos.

Wel yn awr dyna ddigon o fy hanes gyda phethau y byd a'r bywyd hwn. Rhaid troi yn awr at grefydd a'i phethau. Byddaf yn myned i bob moddion fydd yn cael ei gynnal yn y capel yma, a'r lle y byddaf yn cael llawer o bleser ydyw yr Ysgol Sul

## DINORWIG

**Dyweddiad.** Dymuna Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir a Nia Wyn Pritchard, 56 Dôl Elidir, Llanberis ddiolch o galon i'w teuluoedd a'u ffrindiau oll am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur ei dyweddiad ar y 24ain o Fai. **Llongyfarchiadau** i Dafydd a Nia ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar a phob dymuniadau da iddynt ar gyfer y dyfodol. **Angen Gohebydd.** Gan nad yw Glyn

Tomos yn byw bellach yn Ninorwig mae'r Eco yn chwilio am ohebydd newydd i gymryd ei le. Mae'n bwysig bod rhywun yn dod ymlaen i gasglu newyddion am Ddinorwig er mwyn eu cynnwys yn fisol yn yr Eco. Os oes gennych ddiddordeb yna buasai un o Olygyddion yr Eco yn falch o glywed gennych. Cysylltwch â hwy heddiw er mwyn cael newyddion i law ar gyfer y rhifyn nesaf.

a'r Society. Yr wyf mewn dosbarth doniol iawn yn yr Ysgol Sul. Y dosbarth gorau yn yr Ysgol, yr wyf yn sicr. Ei h'athraw ydyw un o'r enw O. Jones yr Hendref. Bachgen ieuangc, tua 29ain o oed. Y mae yn frawd i'r Parch. John R. Jones. Y mae yntau yn hwyllo i ddechrau pregethu yma gyda ni un waith, a buaswn yn meddwl y gwnaiff bregethwr go dda. Y mae ei frawd yn bregethwr da iawn, un o hen deulu Dolwyddelan (ond nid y Castell). Y mae yma lawer iawn o Ddolwyddelan yn y cymdogaeth yma. Byddaf yn mynychu y Seiat yn bur gyson. Bydd yma Seiadau pur dda ag ystyried mai ychydig ydynt o nifer.

Yr wyf yn meddwl ysgrifennu y llythyr cyntaf nesaf i Nhad a Nain, a cofia dithau ddweud wrthi. Y mae yn dda gennyf ddeall ei bod yn dal mor dda yn ei hiechyd. Mi ddylwn ei bod wedi cael rhyw asbri garw ar ôl i mi ymadael, pan y gallodd ddal yr oen hwnnw ar ôl i chwi gyd fethu. Well done Nain. Mi golcha chi i gyd etto pe bai yn troi atoch, a golchi garw fuasai hefyd, achos yr oeddwn yn bur brofiadol ers talwm, beth wybod, hwyrach y bydd yn dod un dro i Wisconsin cyn hir i edrych am yr hen fechgyns y mae yn ei adwaen yma.

Cofia fi at Marget Evans, byddaf yn edrych y priodasau ym mhob papur a gaf, ond dal yn gyndyn y mae, mi ddylwn.

Cofia fi at bawb yna o'r hen gang. John Fron Goch (anfonaf air iddo cyn bo hir), John Tŷ Capel (yntau hefyd yn yr arfaeth), Teulu tŷ nesaf Mr a Mrs Jones, Evan a Catrin Evans hefyd. O; O; O;

Yr oeddwn yn deall ei bod yn bur boethlyd tua'r gystadleuaeth yna. Côr Gorphwysfa yn curo, Capel Coch yn colli, ac wedi cael cam mawr. Beth oedd yr achos na fuasai James wedi dod i'r maes eleni? Dywed wrth G. Jones, Mount Pleasant, fod yn dda gennyf fod Preswylfa wedi dod ymlaen mor flodeuog.

Terfynnaf yn awr gan gofio atoch oll yn y modd mwyaf caredig.

Ydwyf dy anwyl frawd  
OWEN.

Dec. 22

Derbynniais heddyw Xmas Card o'r Fron Goch. Y mae Jemima yn dod adref heno. Yr wyf yn myned i'r Depot gyda'r sledge i'w chyfarfod ac i bostio hwn.

Beth ddylet ti o'r darlun hwn? sef Tom. Dyro ef yn Fron Goch.  
OWEN.

## GWASANAETH TRYDANOL

**ERYRI  
ELECTRICAL  
FRON  
DEINIOLLEN**

★ AIL WEIRIO  
★ CAWODYDD  
★ GOLEUADAU DIOGELWCH  
★ LARWM LLADRON  
★ CYNNAL A CHADW  
(01286) **870858** **SYMUDOL**  
0467 774 326

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD  
CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR**

**Ffôn/Ffacs: 650291**



Dewis eang  
o Welyau a 3P/Suites.  
Llenni Venetian a Llenni Roler.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc — allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Ar agor  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
Ar Gau  
Sul a Mercher

**GWYNETH ROBERTS**  
**84 Stryd Fawr, Llanberis**  
**Ffôn: 870491**

CAFFI 'BWYTY ERYRI'  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau  
Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati  
Peis, Rholiau Sosej  
Pasteiod, Teisennau Hufen  
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

**BECWS ERYRI**  
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

## DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos y Faenol, Deiniolen (871174)

**Y Seindorf.** Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mai — £25: Jennie Lyn Morris, Rhos Cynfi; £15: Gwen Jones, Caernarfon; £10: Mair Jones, Rhos Marian.

**Y Gymdeithas.** Cynhaliwyd pwyllgor i drefnu rhaglen y Gymdeithas Undebol ar gyfer tymor yr hydref yn Ebeneser ddydd Iau, Mehefin 19. Edrychir ymlaen at groesawu nifer o westeion diddorol dros fisoedd y gaeaf. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

**Cymorth Cristnogol.** Cynhaliwyd oedfa yn Ebeneser yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai. Llywyddwyd gan y Parchg John Pritchard ac estynnwyd croeso i Drefnydd Cymorth Cristnogol yn y Gogledd, Mrs Lis Perkins. Croesawyd hefyd ymwelydd o'r India, Dr Rao, a oedd yn gweithio i uno'r mudiadau y mae Cymorth Cristnogol yn eu cynorthwyo yn yr India. Clywyd am waith y mudiad yn cynorthwyo llawer sy'n cael eu cyfrif yn wrthodedig yn y wlad honno. Roedd yn addas cael estyn croeso iddi o gofio mai gwaith Cymorth Cristnogol yn yr India oedd yn cael sylw canolog yn ystod yr Wythnos eleni. Diolch i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws yn y pentref a diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad.

**Diolch.** Dymuna Mrs Ceinwen Jones, Cesail y Mynydd ddatgan ei gwerthfawrogiad a diolch am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd pan ddathlodd ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Dymuna Robin, Janice, Stanley a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl — Greta Thomas, 67 Pentre Helen. Diolch i'r meddygon, yn arbennig Dr Alwyn Parry, ac i'r nyrsus i gyd am eu gofal annwyl a diflino. Diolch hefyd am y rhoddion hael er cof am Greta tuag at Feddygfa Deiniolen, Hospis yn y Cartref a Marie Curie.

**Colled.** Daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mr Richard Jones,

B.Sc., cyn-brifathro Ysgol Gwaun Gynfi, a oedd yn 93 mlwydd oed. Bu yn y swydd am chwarter canrif, sef o 19 Mehefin 1943 hyd ei ymddeoliad yn 1968. Symudodd ef a'i wraig, Olwen, i Abergele i fyw yn fuan ar ôl ei ymddeoliad er mwyn bod yn agosach at ei fab a'u dwy ferch.

Yn ogystal â bod yn brifathro poblogaidd bu hefyd yn weithgar iawn yn yr ardal. Bu'n bregethwr cynorthwyol gyda'r Wesleiaid am fwy na phymtheg mlynedd a deugain. Hanai o Bwllheli ac yn ei lyfr *Dyma Fy Stori* mae'n adrodd hanes ei blentynod yn y dref honno. Soniai hefyd am y cyfnod hapus a dreuliodd yn Neiniolen. Mae dau lyfr arall o'i eiddo, sef *Spando'r Llinyn* sy'n lyfr i blant; a *Hel Pricia*, casgliad o anerchiadau crefyddol, eto ar gyfer plant. Cafodd y llyfr hwn ei wobrwyo yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Clwyd yn 1973.

Bu'r angladd yn Amlogfa Bae Colwyn ar 14 Mai. Gwasanaethwyd gan Y Parchgn Hugh Rowlands, Abergele; Margaret Parry, Rhuthun (gynt o Ddeiniolen); ac offeiriad o'r Eglwys Anglicanaidd. Rhoddodd Gareth, ei fab, deyrnged deilwng iawn i'w dad yn ystod y gwasanaeth.

Da oedd gweld nifer o'i gyfoedion a'i gyfeillion o Ddeiniolen a'r cylch yn bresennol yn y gwasanaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad i'w ddwy ferch, Ann ac Elinor, a'i fab Gareth, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Y Seindorf.** Cynhaliwyd Cyngerdd Blynnyddol y Seindorf yn Llanberis yn ystod mis Mai. Yn cymryd rhan gyda'r Seindorf roedd Siân Griffiths, unawdydd corn, sy'n astudio cerdd yn Salford a braf iawn oedd cael croesawu Siân yn ôl atom. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan Lleisiau Ogwen a'r Seindorf leuenctid gyda Bethan Jones-Parry yng ngofal y noson. Dymuna'r Seindorf ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

## EIRA DDOE

Bu brawd a chwaer o Canada yn ymweld â Llanrug yn ddiweddar. Mab a merch i'r ddiweddar Mary Louisa Pierce Williams, merch Hugh Pierce Williams. Ganed eu mam yn Cwellyn ond bu ei mam hi farw ar ei genedigaeith. Daeth ei nain â hi i Dyddyn Rhuddallt i'w magu.

Priododd Mary â milwr o Canada, ond Cymro oedd yntau, wedi'i eni yn Llandderfel, ger Y Bala. Aethant i Winnipeg yn 1919. Dywedodd hi wrthyf ar y pryd y byddai yn ei hôl yng Nghymru ymhen pum mlynedd, ond welson ni byth mohoni wedyn. Prynasant fferm — neu yn fwy cywir — aethant ati i greu fferm o ddim. Codi 'log cabin' wnaethant mewn pentref bach iawn o'r enw Mafeking, Menisota, ac yno y buont yn gweithio ar y tir ac yn magu tri o blant. Byddai eu clustiau a'u

trwynau'n rhewi wrth iddynt ofalu am y gwartheg!

Bu'r ddau farw yn Vancouver ond roedd eu plant, Glenn a Megan, yn awyddus i ddod i Gymru i weld yr ardal a'r teulu y byddai eu mam yn sôn cymaint amdanynt. Cawsant ddau ddiwrnod yn Llanrug sydd wrth gwrs yn wahanol iawn i'r pentref y gadawodd eu mam yn 1919. Dywedodd y ddau y byddai hiraeth mawr arni. Byddai'n troi'r corddwr, meddai ei merch, dan ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' a'r dagrau'n llifo.

Dwn i ddim os oes rhywun arall yn Llanrug yn ei chofio ar wahân i Ceinwen a minnau, ei dwy gyfnither. Yr oedd yn hanner chwaer i Buddug ac Alwyn, ond roeddent hwy yn rhy ifanc i'w chofio. Tybed oes rhywun arall yn ei chofio?

## Noson Wobrwyo Clwb Pêl-droed Deiniolen



Myrfyn Morris ac Emlyn Jones — chwaraewyr y flwyddyn y tîm cyntaf a'r ail.



Gareth Jones (chwaraewr mwyaf addawol) a Dewi Williams (prif sgoriwr y tîm cyntaf)



## CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

## CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —  
mewn cerbyd *Rolls Royce*  
ar gyfer priodasau, penblwyddi  
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun  
Ffôn: (01286) 871833



WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go iawn ★

## CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen  
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

**Swyddi Newydd.** Llongyfarchiadau i Emyr Williams, Pant Hyfryd ar ei benodiad i swydd Ymgynghorydd Mathemateg yng Ngwynedd a Môn. Ar hyn o bryd mae'n bennaeth adran fathemateg Ysgol Gyfun Llangefni.

Cyn hynny bu'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Pob hwyl iddo yn ei swydd newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi.

Llongyfarchiadau hefyd i Trystan Larsen ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol Gynradd Rhostryfan. Bu'n ddirprwy-bennaeth Ysgol Gynradd Tregarth am saith mlynedd. Pob dymuniad da iddo yntau yn ei swydd newydd.




Tynnwyd y llun hwn yn Sydney, Awstralia, wedi angladd Evan Arthur (brawd Hazel, Arwyn a Glenys) a fu farw yn sydyn yn Awstralia ym mis Ebrill. Yn y llun gwelir aelodau o deuluoedd Tan-merddyn a Tan-y-ffordd, Ceunant, Llanrug, a ymfudodd i Awstralia yn 1958.

Rhes gefn: Hazel (Caernarfon); Margaret Wyn (Caernarfon); Cynthia, Marian (Ceunant); Arwyn (Caernarfon); Owen Meirion, Gwyneth (Ceunant); Richie Hughes (Llanddaniel) gŵr y ddiweddar Jenny Olwen, Ceunant.

Rhes flaen: Raymond Peters (Waunfawr); Eira Wyn (Ceunant); Glenys (Llangefni); Margaret a Brenda (Ceunant). Megan, wyres i Margaret Wyn a'r diweddar Evan Arthur sydd ar lin Glenys.

## GRYM MAWL



Susan Williams gyda'i phlant Ifan Rhys — yn brysur ar ei dractor — a Mared Lois ar ei glin.

Yn ddiweddar bu Susan Williams, Pant Hyfryd, Ceunant, yn Stiwdio Sain yn recordio caneuon ar gyfer casét o'r enw 'Grym Mawl'. Recordiwyd pymtheg o ganeuon allan o'r llyfr *Grym Mawl* (*Power Praise*), llyfr emynau a chaneuon i'r eglwysi ar gyfer y nawdegau. Caneuon o fawl bywiog a defosiwn addolgar mewn arddull gyfoes sydd ar y casét ac fe'i perfformir gan nifer o artistiaid gan gynnwys y canwr a'r actor lleol adnabyddus, Dafydd Dafis.

Gall y casét hwn fod o ddefnydd mawr i'n capeli, eglwysi a'n hysgolion gan fod cyfeiliant offerynnol yn unig ar gael ar un ochr i'r tâp yn ogystal â'r cyfeiliant a'r lleisiau ar yr ochr

arall. Gobeithir rhyddhau'r casét yn ystod y misoedd nesaf.

Gall Susan gynnig gwasanaeth i gapeli, eglwysi ac Ysgolion Sul ar hyn o bryd gan fod y gerddoriaeth yn ei meddiant. Gellir cysylltu â hi ar (01286) 650272. Mae gan Susan brofiad helaeth yn y maes hwn gan iddi fod yn aelod o'r grŵp 'Canu'n Llon' a arferai ganu mewn capeli ac eglwysi yn ystod yr 80au. Bu hefyd yn ystod yr un cyfnod yn aelod o'r grŵp roc Cristnogol Doulós. Mae'n enedigol o Nefyn ond yn byw ar hyn o bryd yn Ceunant gyda'i gŵr a dau o blant, Ifan Rhys a Mared Lois.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

# Cronfa Goffa R.H.Owen

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod.

Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r Ysgrifennydd:

**JOHN H. HUGHES  
TAN Y CLOGWYN  
LLANBERIS, GWYNEDD  
LL55 4LF**

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 AWST 1997.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

## Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



**GEMINI**  
SERVICE CENTRE


Car neu Fan  
Petrol neu Disel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed £££ ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car

**AVW** YSTAD CIBYN  
CAERNARFON (01286) 673559



Am eich  
**ANGHENION  
ADEILADU**  
mawr a bach  
**MASNACHWYR**  
A "D.I.Y."  
am  
**BRISIAU**  
**CYSTADLEUOL**  
DEWCH AT



**BRYN**  
(B & K Williams)

**Yr Hen Ysgol  
Glanmoelyn  
LLANRUG**  
Ffôn: 677482

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

**Cymorth Cristnogol.** Diolch i bawb fu'n casglu o ddrws i ddrws yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol y mis diwethaf. Casglwyd £461.58 yn Llanberis. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd at y Casgliad. Yn ystod yr Wythnos hefyd cynhaliwyd oedfa undebol yn Nant Padarn gydag aelodau'r gwahanol eglwysi'n cymryd rhan ynddi. Llywyddwyd gan y Parchg Philip Hughes a chafwyd anerchiad gan y Parchg John Pritchard. Mr Gwynfor Roberts oedd yr organydd.

**Pêl-droed.** Nos Sadwrn, Mai 31, cynhaliwyd noson wobrwyo gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid y pentref yng Ngwesty Dolbadarn. Enillodd y tîm dan 15 oed Bencampwriaeth Cynghrair Gwyrfa'i a Chwpan y Gynghrair y tymor diwethaf. Cyflwynwyd y ddau dlws iddynt ynghyd â'u medalau gan Mr Huw Roberts o Glwb Manchester United. Llongyfarchodd y tîm a'u rheolwyr, Emlyn ac Ian, am wneud mor dda. Cyflwynwyd hefyd dylsau i'r tîm dan 13 oed a gyrhaeddodd rownd derfynol Cwpan Chwarae Teg eu hoedran.



Huw Roberts yn cyflwyno'r tlysau i Alwyn Jones, Capten y tîm.

**Capel Coch.** Dydd Sadwrn, Mai 31, aeth plant yr Ysgol Sul a'u rhieni am drip i Lanfihangel-y-pennant i weld cartref Mari Jones. Roedd yn ddiwrnod heulog braf a hynny'n ychwanegu at fwynhad y trip i bawb. Cawsom sgwrs fer gan y Parchg Brian Wright, Tywyn, yn adrodd hanes Mari Jones yn cêrdded, yn 1800, yr holl ffordd o'i chartref i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles. Yna cafodd pawb bicnig ar lan yr afon sy'n rhedeg

heibio i'r hen dŷ, ac ambell un o'r plant yn syrthio i'r afon! Aethom wedyn i weld olion Castell y Bere gerllaw, un o'r hen gestyll Cymreig a adeiladwyd gan Lywelyn Fawr yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ar y ffordd adref arhosom am awr yn Nolgellau am baned neu hufen iân, a chyrraedd yn ôl yn ddiogel erbyn 6 o'r gloch. Diolch i bawb am gefnogi'r trip. Nid hwn oedd trip yr Ysgol Sul 'chwaith! Bydd hwnnw ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf.



Plant Ysgol Sul Capel Coch wrth gofer Mary Jones.

**Tlws yr Eco.** Bu pum tîm yn cynrychioli Llanberis yng nghystad-leuaeth Tlws yr Eco eleni. Dau dim dan 11 oed a thri tîm dan 9 oed. Cyrhaeddodd un o'r timau dan 9 oed y rownd derfynol ond colli wnaethpwyd yn erbyn Llanrug o 1 gôl i 0. Dyna'r unig gôl i'r tîm ei hildio mewn pum gêm y noson honno. Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth i'r timau trwy'r flwyddyn.

**Undeb y Mamau.** Pnawn dydd Mawrth, 3 Mehefin, cynhaliwyd y pwyllgor misol yn festri Eglwys St. Padarn. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchg Emyr Owen a chafwyd trafodaeth ddiddorol iawn ganddo a'r darlleniadau 'Y Sul Cyntaf Wedi'r Drindod'. Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Joan Griffiths, Caernarfon, yn diolch i aelodau Llanberis am y croeso a gafwyd yn yr Ŵyl Ddeoniaethol a gynhaliwyd yn Eglwys St. Padarn nos lau, 22 Mai.



Tîm dan 9 oed ddaeth yn ail yng nghystad-leuaeth Tlws yr Eco.

ar ôl dod gartref. Diolch hefyd i holl staff Ward Prysor am eu gofal tyner. Diolch yn fawr.

**Er Cof** am Ann Blodwen Jones a fu farw 15 Gorffennaf 1989:

Mi garwn unwaith eto  
Cael clywed sŵn dy droed  
Ar balmant llwm fy mwthyn,  
Neu'th lais yn nail y coed.

(W. Hughes)

Gwraig, Mam a Nain annwyl — Wil, Heddwyn, Llynwen ac Iddwal; Llinos Angharad a Carwyn John.

**Ysgol Dolbadarn.** Bu rhai o blant dosbarth Mr Parry yn aros yng Nghanolfan Rhyd-ddu am dair noson yn ddiweddar. Mrs Elizabeth Roberts a Mr Dylan Parry oedd yn gofalu amdanynt a chafwyd cymorth rhai o'r rhieni amser prydau bwyd gyda'r nos. Bu'r plant yn brysyr yn astudio'r amgylchedd yn ystod y tridiau a dreuliwyd yno.

**Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn mis Mehefin** — £35: Mrs C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); £25: Mrs D. Williams, 18 Ffordd Tŷ Du (20); £15: Mrs M. Davies, Stryd yr Wyddfa (98); £10: Mrs G. Morris, 54 Dôl Elidir (214); £5: Mrs S. Evans, Stryd lanci (174).

Maes Derlwyn ddiolch i bawb am eu **Capel Jerusalem.** Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach a gynhaliwyd 3 Mehefin, o dan lywyddiaeth Mr H. R. Jones, cafwyd pnawn difyr yng nghwmni Griff a Pearl Hughes yn dangos lluniau gyda Pearl yn rhoi sylwadau ar y wlad maent yn byw ynddi a thu hwnt. Cafwyd sgwrs ymhellach gyda lluniaeth ysgafn tra'n cymharu pryderfthwch Eryri a'r rhai a ddangoswyd o Canada. Trafodwyd hefyd y cyfarfod sydd i ddilyn drwy'r tymor. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 1 Gorffennaf, pryd y ceir trafodaeth rydd i'r aelodau ar y testun: 'Beth a Gredwn'. Croeso cynnes i bawb.

### W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANALOG

Pant Tirion, Llanrug  
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr  
Nwy  
Cofrestredig  
Corgi



Aelod o'r  
Association  
of Mechanical  
Services  
Contractors

Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr

### ANTUR



WAUNFAWR

### BARBECIW

### ANTUR WAUNFAWR

DYDD SADWRN, 26 GORFFENNAF

★ Byddwn ar agor bob dydd Sadwrn drwy'r haf o 10 y bore tan 2 y pnawn i werthu llysiau, pêr-lysiau, crefftiau blodau sych, jamiau cartref, dodrefn coed i'r ardd, a mwy. Galwch i mewn.

★ Dewis ehangach o lysiau ffres o'r ardd farchnad

### GWYL Y GWYLL NOS WENER, 5 MEDI

Noson o hwyl yn astudio ystlumod a gwyfynnod yn ein Parc Natur, wedi iddi dywyllu. Darperir lluniaeth i gynhesu!

## Wavell Roberts

CIGYDD

London House  
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!

## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

**Llongyfarchiadau** i June Jones, Bro Rhos ar ei llwyddiant yn ennill gradd mewn gwaith cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored.

**Clwb 200 y Neuadd.** Enillwyr gwobrau mis Mai oedd — £20: Elinor Jones, 22 Cremllyn (139); £10: Gwilym Jones, Cynfal, Swyddfa'r Post (93); £5 yr un: Gareth Hughes (86), Erddig; Collwyn Williams, Elan (101); Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (32); Mair Jones, Cilan (43); Emyr Price, 5 Tan-y-ffordd (169); Nan Rowlands, 23 Y Ddôl (55); Judith Jones, Gwelfor, Saron (61). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Trip Ysgol Sul Y Cysegr.** Bydd y trip eleni yn mynd i'r Rhyl ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 10 y bore ac yn cychwyn yn ôl o'r Rhyl tua 5.30 p.m. Dylai'r rhai sy'n dymuno mynd ar y trip roi eu henwau i un o athrawon yr Ysgol Sul mor fuan ag sydd modd, os gwelwch yn dda. Ni chodir tâl ar blant yr Ysgol Sul ond codir £2 ar blant nad ydynt yn aelodau a £3 i oedolion.

**Carnifal.** Cynhelir y Carnifal eleni yn ystod wythnos olaf tymor yr ysgol. Nos Fercher, 16 Gorffennaf, bydd yr Helfa Drysor yn cychwyn o'r Neuadd am 6.30 p.m. a bydd noson o bingo wedyn am 8 yn y Neuadd.

Nos Iau, cynhelir cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd ar iard a chae'r ysgol gyda'r gweithgareddau'n cychwyn am 6 p.m.

Ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf, bydd gorymdaith y Carnifal yn cychwyn o faes parcio'r Bedol am 1 p.m. ac yn gorffen yn y cae chwarae pryd y bydd y gwisgoedd ffansi yn cael eu beirniadu gan John Albert a'i ffrind o Bengelli.

**Merched y Wawr.** Yng nghyfarfod olaf y tymor nos Fercher, Mehefin 11, bu'r aelodau yn chwarae bowlio deg yn Llandudno. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog ac, yn dilyn, mwynhawyd pryd o fwyd blasus yng Ngwesty'r Sandringham. Enillodd Mrs Ann Lewis botel o win am sgorio'r pwyntiau uchaf am y noson.

Dymunwyd yn dda a mynegwyd llongyfarchiadau'r gangen i Nan Jones ar ennill gradd anrhydedd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Estynnwyd cydymdeimlad hefyd i

Alys Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

At y llywydd, Mrs Rita Williams; yr ysgrifenyddes, Mrs June Owen; a'r trysorydd, Mrs Nan Rowlands, etholwyd Mrs Ann Elis yn is-lywydd, Mrs Margaret Rees yn is-ysgrifennydd a Mrs Margaret Williams yn is-drysorydd. Aelodau'r pwyllgor yw Mrs Gwyneth Jones, Mrs Bet Owen, Mrs Nora Parry, Mrs Gwyneth Williams, Mrs Eryl Roberts a Mrs Mary Evans. Etholwyd Mrs Glenys Griffith a Mrs Eirlys Williams ar Bwyllgor yr Anabl a Mrs Mair Jones a Mrs Gwyneth Williams ar y Pwyllgor Celf a Chrefft.

Bydd y tymor newydd yn dechrau nos Fercher, 10 Medi, gyda noson gymdeithasol yn yr Ysgol. Edrychir ymlaen i groesawu aelodau hen a newydd.

**Newyddion o'r Ysgol.** Daeth tymor y triplau ysgol. Bu plant y dosbarth derbyn a'r plant meithrin ar ymweliad â Sŵ Bae Colwyn, ddydd Mercher, 11 Mehefin. Dydd Mawrth, 17 Mehefin, aeth plant Mrs Jones a Mrs Williams i'r fferm gwningod yn Llanystumdwy ac yna i'r Ysgol Fictoriaidd, lle cafodd y plant brofiad o fod yn ddisgyblion mewn ysgol y cyfnod hwnnw, ymweld a'r gegin i wneud teisennau bach. Dydd Llun, 23 Mehefin, ymwelodd yr adran iau â Thŷ Aberconwy yng Nghonwy ac i Felin Wlân Trefriw.

Oherwydd y tywydd gwlyb bu'n rhaid gohirio diwrnod y mabolgampau tan ddydd Mawrth, 8 Gorffennaf.

Nos Wener, 13 Mehefin, cafwyd noson Alffresco lwyddiannus iawn er gwaethaf y tywydd. Roedd digon o fwyd i bawb a nifer amrywiol o weithgareddau i ddiddori'r plant. Rydym yn ddiolchgar iawn i bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon am weithio mor galed er llwyddiant y noson.

Nos Wener, 11 Gorffennaf, trefnir yr Helfa Drysor flynyddol. Rwy'n siŵr y cawn gefnogaeth dda iawn eto eleni. Cawn gyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad i'r Pennaeth, y Dirprwy, a'r Weinyddes Feithrin, sy'n gadael ddiwedd y tymor hwn.

Bydd nosweithiau ymweliad rhieni â'r ysgol nos Lun a nos Fawrth, 7 ac

8 Gorffennaf. Hysbysir pawb o'r amseroedd.

Mae'r adran iau wrthi'n brysur iawn yn ymarfer sioe gerdd. Perfformir y sioe nos Fawrth, 1 Gorffennaf, a nos Iau, 3 Gorffennaf. Bydd tocynnau ar gael o'r Ysgol.

Ddydd Gwener, 4 Gorffennaf, bydd plant blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail am ddiwrnod; ac ar fore Mawrth, 15 Gorffennaf, bydd gwasanaeth olaf y tymor, sef gwasanaeth gwobrwyo Bl.6 am eu gwaith drwy'r flwyddyn.

Bydd yr ysgol yn cau ddydd Iau, 17 Gorffennaf am wyliau'r haf.

**Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol** am fis

Mehefin — £20: Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn (44); £12: John Jones, Wern Difyr (15); £8: Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (40); £5: Dilys Perez, Yr Hafod, Tan-y-cae (58); £3: Steven a Siân Jones, 26 Stad Eryri (31). Diolch i bawb am gefnogi.

**Llongyfarchiadau** i Lynne Edwards, 5 Tai Cae Rhos, Seion, ar ennill gradd M.Add o Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Mae Lynne yn gweithio i'r Gwasanaeth Cyngori Cyffuriau i'r Ymddiriedolaeth Iechyd yn y Gymuned ym Mangor. Roedd ei chwr yn ymwneud â maes cyngori rhai sy'n gaeth i gyffuriau.



Y tîm dan 9 oed fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco.

### Cefnogwch Fusnesau Lleol

## CEIR CYMRU BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafailio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

**SPAR**

### Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch cartref  
yn ardal Llanrug

## Fframia

### GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**Gwynedd  
Hotel  
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar  
gyfer priodasau, dathliadau  
bedydd, penblwydd a phob  
achlysur arbennig arall.  
Gallwn drefnu adloniant —  
disgo a.y.y.b.  
Bwydlen Bar a Restaurant  
Cinio Dydd Sul

## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Apêl MacMillan.** Casglwyd y swm anrhydeddus o £139.64 o ddrws i ddrws gan Mrs Bessie Williams a Mrs Eirlys Jones. Diolchir i bawb am eu haelioni.

**Diolch.** Dymuna Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiaid, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Pat Larsen hefyd ddiolch am y cyfeillgarwch a'r dymuniadau da a ddangoswyd iddi wedi'i thriniaeth fawr yn Ysbyty Lerpwl. Diolch yn arbennig i'w theulu a'i chymdogion ac i bawb yn y pentref.

Anfonir cofion annwyl at Elinor Jones, Heatherbank a Mrs Jones, mam Carys Cae Eboni. Rydym oll yn holi amdanoch ac am bawb arall yn y pentref.

**Pob Lwc.** Pob dymuniad da i Glen Lamb, Bro Eglwys a'i wraig ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**Urdd Bentref.** Bu nifer o'r aelodau yn Mabolgampau'r Cylch ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen a chawsant fwynhad mawr. Diolchir i'r rhai fu'n eu hyfforddi a'u cludo. Wedi blwyddyn lwyddiannus, fu'n llawn gweithgareddau amrywiol a diddorol, bydd y gangen yn ailgyfarfod wedi gwyliau'r Diolchgarwch. Diolchir i'r pwyllgor am eu hymroddiad ac i'r aelodau am eu ffyddlondeb.

**Trip yr Ysgolion Sul.** Bydd y trip yn mynd Southport eleni ac mae'r bws llawn yn cychwyn o Groesffordd King yn brydlon am 8 o'r gloch. Gobeithio y bydd yr haul yn tywynnu ac y cawn ddiwrnod plaserus.

**Llongyfarchiadau** i Cai a Trystan Larsen ar eu penodiadau fel penaethiaid ysgolion Trefor a Rhostryfan. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Llongyfarchiadau hefyd i Osian Dafydd ar ennill gwobr ariannol gan Brifysgol Bangor ar gyfer ei gwrs ym mis Medi. Da iawn chdi, Osian.

**Yr Ysgol Gymuned.** Cyflwynwyd Tlws Selwyn Griffith i Heledd Wyn Jones eleni. Bu nifer o blant yr ysgol yn sgipio'n nodedig i Guriad Calon Cymru a rhoddir cyfran ohono tuag at gasgliad y pentref at Ymchwil y Galon. Bu Blwyddyn 6 yn ymweld ag

Ysgol Brynrefail a diolchir i'r prifathro a'r staff am eu croeso. Byddant yn gartrefol braf erbyn mis Medi.

Bydd trip yr ysgol yn mynd i'r Sŵ Fynyddig ym Mae Colwyn, Gorffennaf 10fed, a gobeithir y bydd yr haul yn tywynnu. Cynhelir mabolgampau'r ysgol ar gaeau'r ysgol, Gorffennaf 1af. Gwahoddir rhieni a ffrindiau yn gynnes iawn gan obeithio y byddant hwythau yn cymryd rhan.

**Cyfeillion yr Ysgol.** Cynhaliwyd Sêl Cist Car ynghyd ag amrywiol stondinau a gweithgareddau ar fuarth yr ysgol nos Wener, Mehefin 20fed. Diolchir i bawb a drefnodd ac a gefnogodd y noson.

Dymuna'r prifathro a'r staff a'r plant ddiolch i'r Cyfeillion am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn addysgol yn codi arian er budd addysg y plant.

**Yn Ddeunaw Oed.** Pob dymuniad da i Lois Dafydd fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 18 oed ym mis Gorffennaf. Pob lwc a llwyddiant iti i'r dyfodol, Lois.

**Pwyllgor Neuadd.** Atgoffir chwi o'r noson bingo yn y Neuadd Gymuned nos Wener, Gorffennaf 11eg, am 6.30 o'r gloch. Tynnir y Raffl Fawr — mae'r tocynnau ar werth o hyd gan aelodau'r pwyllgor. Diolchir am eich cefnogaeth.

**Dymuniadau Da.** Pob dymuniad da i'r rhai fydd yn cystadlu yn unigol neu fel aelod o gôr neu barti yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, ac yn yr amrywiol sioeau amaethyddol. Gwyliau dedwydd i chwi oll.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)



Donna Mair Roberts a enillodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth unawd alaw werin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Islwyn.

**Gwsanaethau'r Capel.** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

MEHEFIN

29: Parchg W. R. Williams (10)

GORFFENNAF

6: Mr John Roberts (2)

13: Parchg W. R. Williams (10)

20: Parchg Gareth Alban (10)

27: Parchg W. R. Williams (2)

Yn ôl yr arferiad ni fydd addoli cyhoeddus yng nghapel y gymuned

yn ystod mis Awst. Bydd gwasanaeth arferol o 7fed Medi ymlaen.

**Eisteddfod yr Urdd.** Donna Mair Roberts, Erw Wen a enillodd y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth unawd alaw werin yn Eisteddfod yr Urdd, Islwyn. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Enillydd arall.** Enillwyd gwobr am 'Sleid y Flwyddyn', Clwb Camera Caernarfon, gan Richard Jones, Tryfan.

**Dyweddio.** Mae Aled Vaughan Thomas a Jill Roberts, Llwyn Onn wedi dyweddio. Gwaith Aled yw technegydd cyfrifiadurol gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni ac mae Jill yn fferylllydd teithio gyda chwmni Boots. Dymunir pob hapusrwydd iddynt.


**Tele-fythynnod.** Mae'r 'swyddfa di-bapur' wedi cyrraedd Caeathro! Ers ad-drefnu llywodraeth leol y llynedd mae Carey J. Jones, Tryfan wedi bod yn teithio bob dydd o Gaeathro i Gonwy — taith o 46 milltir. Rŵan, gyda chymorth llinell ffôn, modem a chyfrifiadurol personol, mae Carey yn gweithio o'i swyddfa yn ei chartref. Gall drosgwlyddo dogffennau wedi'i cyfieithu ganddi i brif swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a hynny mewn mater o eiliadau. Yn ogystal ag arbed costau petrol wrth deithio mae hi hefyd yn arbed yr amgylchfyd drwy beidio llosgi tanwydd neu bostio papur yn ôl ac ymlaen.

'Pryd mae'r Eco allan nesa, deudwch — ma' gen i stori dda i'w dweud?'

'Wel anfonwch eich stori i un o'r golygyddion erbyn nos Lun, 25 Awst, ac fe fydd eich stori yn ymddangos yn rhifyn Medi a ddaw o'r Wasg 4 Medi.'

'Ond, dydw i ddim yn un da am 'sgwennu — hynny ydi i ymddangos mewn papur bro.' 'Peidiwch â phoeni am hynny, jest rhwch y manylion ac fe wnaiff y golygyddion rhoi trefn ar y stori wedyn.'

## DRAENOG



Sinderela mewn gwisg cowboi welwyd yn rhuthro allan o'r Dolbadarn un noson. Na, nid clywed y cloc yn taro hanner nos wnaeth hi . . . OND . . . clywed yr injan dân. Rhedodd o ganol y Lein-dansin a gneud B-lein am y tŷ . . . roedd hi'n siŵr nad oedd hi wedi diffodd grill y stôf cyn cychwyn allan a bod yr injan dân ar ei ffordd i'w thŷ.

## GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dŵr oer  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cŵn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

## Emyr Jones

PLYMAR  
A PHEIRIANNYDD  
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon  
LLANRUG

(01286) 673513

hefyd

(0374)

496616

(symudol)



# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



*Rhai o blant Ysgol Waunfawr yn gosod Ceiliog y Gwynt, a gynlluniwyd gan Iwan Parry, ar dir Antur Waunfawr. Rhoddwyd y Ceiliog yn rhodd gan yr Ysgol.*

**Yr Urdd.** Llongyfarchiadau i aelodau'r Urdd a'u hyfforddwyd ar eu llwyddiant gyda'r gân actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Islwyn. Rwy'n siŵr fod y rhai fu'n gweithio'n galed yn trefnu'r daith yn teimlo bod eu gwaith wedi bod yn werth chweil.

**Dathlu Pen-blwydd.** Llongyfarchiadau i Dylan Jones, 11 Tref Eilian; Llŷr Jones, Ty'n Cae; a Llinos Williams, 19 Bro Waun ar gyrraedd eu deunaw oed. Dymunwn y gorau ichi i'r dyfodol.

**Yn yr Ysbyty.** Drwg gennym glywed fod Mrs Lloyd, Cil Peblig a Mr Iestyn Jones, Ty Ni yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion atynt a'n dymunir da am adferiad buan.

**Croesawn** Mr ifor Bracegirdle, Bro Waun; Mr Glyn Owen, Glan Gors; Mrs Catherine Williams, Trem y Don; Mr Edgar Owen, Glyn Awel; Mr John Cotton, Stad Tŷ Hen; Mrs Clough, Ynysoedd; Mrs Alma Jones, Tan-y-fron; Mrs Williams, Stad Croesywaun; Mrs M. Jones, 7 Ael-y-bryn; a Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau adref o'r ysbyty, gan obeithio y byddwch yn gwella'n fuan.

Rwy'n siŵr ein bod wedi gweld colli cwmniaeth Mr Dewi Richards o'r pentref. Oherwydd nad yw wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar mae wedi ymgartrefu yng nghartref preswyl Bryn Blodau, Llanffestiniog. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato.

**Profedigaethau.** Yn dawel yn yr ysbyty wedi cystudd hir bu farw Mr Glyn Williams, Stad Tref Eilian. Cydymdeimlwn â'i briod Mrs Megan Williams a'r plant, Gwyn Meirion, Linda a Jill, yn eu profedigaeth o golli priod a thad.

Cydymdeimlwn â Mr Cyril Smith, Rhos-lan yn ei brofedigaeth o golli mab.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Mary Elizabeth Hanks, Bro Waun.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Liz Daniels, Stad Tŷ Hen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad. Dymuna Liz a'r teulu ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad annwyl.

**Diolch.** Ar ran Eric, Iona ac Enid, dymuna Catherine, Bryn Gwenallt, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a'r llu cardiau a dderbyniwyd yn eu galar a'u colled o golli mam, nain a hen nain annwyl. Roedd y gynulleidfa yn y capel ddiwrnod yr angladd yn deyrnged i'w phoblogrwydd ac yn gysur mawr i'r teulu. Hefyd hoffem ddiolch am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd Mam ar bob pen-blwydd a phob Nadolig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Llongyfarchiadau** i Sandie Clough, Ynysoedd ar ei phriodas â Martin Hill o Dal-y-sarn.

**Cronfa MacMillan.** Dymuna'r trefnydd, Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, a'r pwyllgor ddiolch i'r canlynol am eu cymorth gyda chasglu o dŷ i dŷ yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwn hwn. Mrs Mair Parry, Deulyn, Stad Croesywaun, £33.24; Miss Marian W. Jones, Dôl Erddi a Mrs Olwen Owen, Noddfa, Tref Eilian, £71.44; Mrs Veronica Owen, Cil y Mynydd, £33.45; Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt, £56.93; Gwesty Snowdonia Parc, £9.46. Cyfanswm: £204.52.

**Cymorth Cristnogol.** Cyfanswm y casgliad eleni oedd £415. Dymuna'r trefnydd ddatgan ei ddiolch i'r pentrefwyr am eu haelioni ac i'r casgryddion am eu cymorth parod yn mynd o gwmpas y pentref.



*Tîm buddugol Ysgol Waunfawr a enillodd y Gala Nofio i ysgolion llai yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon.*

**Merched y Wawr.** Nos Iau, Mai 22ain cyfarfu'r gangen yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Marian Wyn Jones. Mrs Avril Thomas, Pentir oedd ein gwraig wadd a daeth ag amrywiaeth o'i gwaith llaw i'w harddangos inni. Soniodd ychydig wrthym am sut y dechreuodd y diddordeb gan ddweud mai ei mam oedd yn arfer gwau sanna ers talwm, ac yna fe ddechrauodd hithau wau, a chael hwyl arni, a doedd dim dal arni wedyn. Roedd ei gwaith yn wledd i'r llygad, o llieiniau bwrdd wedi'u haddurno â phwythau cain, cwilt gwely 'patchwork', gwaith caligraffi, a gemwaith arian o bob math. Cawsom noson hynod ddifyr a phawb wedi rhyfeddu at ei dawn.

Yn gofalu am y te a'r raffl roedd Mrs Heulwen Huws a Mrs Olwen Owen ac enillydd y raffl oedd Mrs Rhian Ellis. Roedd raffl ychwanegol wedi'i rhoi yn rhodd gan Mrs Thomas, sef 'pendant' o'i gwaith ei hun, a'r enillydd oedd Mrs Gill Brown.

**Apêl y Ganolfan.** Mae pwyllgor Canolfan Waunfawr yn anelu at godi £10,000 i gwblhau yr estyniad


newydd i'r Ganolfan erbyn yr hydref.

Bydd yr estyniad yn cynnwys ystafelloedd pwyllgor, storfa, stafelloedd snwcer a bowllo-dan-do.

Dywedodd Cadeirydd y Ganolfan, Eurig Wyn: 'Mae angen i bawb dynnu hefo'i gilydd i gwblhau'r nod ariannol. Mae'r costau ychwanegol yn cynnwys dodrefnu a charpedu'r estyniad, gwaith plymio a nifer o fanion eraill. Mae'r Clwb Pêl-droed yn barod yn dangos y ffordd drwy drefnu taith nodedig i godi tua £1,000. Byddwn yn trefnu adloniant yn y dafarn ar nos Sadwrn ola'r mis drwy'r gaeaf. Gobeithio'n fawr y cawn help pawb i orffen yr estyniad a fydd o ddefnydd i'r pentref cyfan.'

Bydd y Ganolfan yn gofyn i gymdeithasau, unigolion a phob ffynhonnell ariannol bosib am gyfraniadau i orffen y gwaith.

**Enillwyr y Clwb 300 am fis Mai** — £40: Miss Nia Llwyd, Dôl-y-coed; £25: Mr Peter Marson, Blaen-y-nant; £10: Mr Don Roberts, Sŵn-y-gwynt. **Eco'r Wyddfa.** Daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r Wasg ddechrau mis Medi. Cofiwch ddod a'ch newyddion i mi yn ystod yr haf. Diolch.



*Dyma dri o hogia'r Waun fu'n cystadlu mewn cystadleuaeth ddringo i ysgolion Gwynedd, a gynhaliwyd ym Mhlas y Brenin, Capel Curig. Roedd yn rhaid i Rhys, Iolo a Marek gynllunio'r ddringfa'n ofalus. Ble fydd y goncwest nesa?*

## E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI

## BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partion, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



**D. P. OWENS**

RHIWLAS

01248-361044

## Mabolgampau Ysgol Brynrefail



Cafwyd cyfarfod llwyddiannus eto eleni gyda'r safon yn gyson dda, yn enwedig yn yr oedran ieuengaf. I

chwi gyn-ddisgyblion, y tŷ llwyddiannus eleni oedd Eilian. Daeth Elidir yn ail, Eryri yn drydydd, a Gwyrfaï yn bedwerydd.

Yr oedd yn gyfarfod cystadleuol iawn gyda nifer o'r rاسus yn agos iawn. Yn ôl y traddodiad cyflwynwyd tîws i'r eneth a'r bachgen mwyaf llwyddiannus ym mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10, a'r enillwyr eleni oedd Marcus Orkick, Gemma Bourne (Bl.7), Arfon Jones, Becky Jones, Diana Roberts (Bl.8), Gareth Jones, Siân Green (Bl.9), Lee Hughes, Yvonne Templeman (Bl.10).

Un o draddodiadau mawr yr Ysgol yw cyflwyno'r *Victor Ludanum* a'r *Victrix Ludorum*, ac roedd yna gryn gystadleuaeth am y bencampwriaeth hon. Y prif fachgen — a llongyfarchiadau calonog iddo — oedd Jonathan Gordon. Oherwydd bod Meleri Ellis ac Elin Harding wedi ennill yr un nifer o bwyntiau fe rannwyd y *Victrix* rhyngddynt.




Meleri Ellis ac Elin Harding a rannodd y *Victrix Ludorum* â Jonathan Gordon v *Victor Ludanum*



Enillwyr y tîwsau i'r bechgyn a'r genethod mwyaf llwyddiannus ym mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10.

### AR BEN ARALL Y LEIN . . .

(Parhad o'r dudalen gefn)



Brithyll o Lyn Cwellyn.

flynddoedd oed, tuag at bron derfyn eu taith i Lyn Nantlle. Rwy'n edrych ymlaen at gael taflu pluen — wythnos nesa, gobeithio.

Araf iawn yw Cwellyn wedi bod tan yr wythnos yma, 8-15 Mehefin, pan ddechreuwyd dal o ddifrif yno. Cafodd Bryn Jones, Bethel, saith o bysgod hyfryd yno brynhawn dydd Iau.

Mae'r terfysg yn 'rafu pethau ar Lyn y Dywarchen. Mae stoc trwm yno a'r 'sgodyn trymaf y clywais i amdano oedd yr un 7 pwys a ddaliwyd gan Huw Deulyn Williams o Fethel. Mae nifer tua'r 4-5 pwys wedi dod i'r rhwyd. Gwelais Bryn Griffith o Gaeathro yn cael ei dorri'n rhacs yno un pnawn gan 'sgodyn mawr. Dydw i ddim eisiau dechrau stori neu fe fydd rhywun yn deud bod yna anghenfil yno!

Cawiad y mis yma:

**ALDER.** Bachyn maint 14

**Corff:** Paun brown gyda rib aur, hefyd 2 x twist o aur ar y gynffon; **Hackle:** brown tywyll (Rhode Island Red);

**Aden:** pluen asgell cyffyllog (golau neu dywyll).

Mae'r pry yma allan tua diwedd Mehefin, a dylid ei ddefnyddio tan ganol mis Gorffennaf.

### NOSON WOBRWYO

Un o brif amcancion yr *Eco* o'r cychwyn oedd uno'r fro wrth droed y Wyddfa a'n bwriad fel golygyddion yw ceisio rhoi ar gof a chadw cofnod o ddigwyddiadau'r fro hon. O'i hanfod mae diffiniad rhywun o 'sylw' mewn papur bro yn amrwyo. Gall sawl golygydd gyfeirio at 'gwyn' pryd na chafodd hwn a hon sylw am ryw beth sydd i'r mwyafrif yn ymddangos yn ddiwbys, ond eto mae'n bwysig i'r unigolyn. Yn aml gall y golygydd — yn enwedig golygydd chwaraeon — gwyno am na chyfeiriwyd rhyw wybodaeth iddo. 'Dy le di ydi chwilio am y wybodaeth,' yw'r agwedd yn aml.

I geisio uno'r fro, a rhoi clod a sylw i unigolion a mudiadau, bwriedir trefnu 'Noson Wobrwyo Chwaraeon Bro'r Eco'. Cynhelir y noson, dyweder, yn neuadd Ysgol Brynrefail ryw bryd yn ystod mis Hydref. Byddai hynny'n golygu fod y rhai a enwebir yn cael eu henwebu ar sail perfformiadau hyd at ddiwedd Awst 1997, e.e. tymor pêl-droed 1996-97, neu tymor criced 1997.

Gallaf dystio fod yr amrywiaeth o gampau sy'n gysylltiedig â'r fro yn each a'r sgiliau unigol mewn rhedeg, sgio, dringo, dartiau, a thrwodd i'r gêm timau traddodiadol. Rwyf yn ymwybodol hefyd o'r lluo o wirfoddolwyr sy'n rhoi egni ac amser i feithrin, cynnal a chefnogi'r campau. A'n

bwriad yw adlewyrchu yr hyn sy'n dda yn yr ardal hon ble mae chwaraeon yn llythrennol 'yn y gwaed'.

Cynhelir noson lwyddiannus gyffelyb gan Gyngor Gwynedd (a Chyngor Arfon cyn hynny) ac yn amlwg gellir gwneud defnydd o'r fformat llwyddiannu hwnnw.

Beth sy'n rhaid i chwi ei wneud i helpu i wneud noson lwyddiannus? Yn gyntaf rhaid fydd enwedbu unigolion neu dimau ar gyfer y gwahanol categorïau.

I enwebu ysgrifennwch bwt a'i anfon ataf gan nodi yr agweddau sy'n gwneud y person a enwebir yn 'arbennig'.

Y categorïau fydd:

1. Chwaraewr y Flwyddyn (bachgen) dan 16 oed.
2. Chwaraewr y Flwyddyn (geneth) dan 16 oed.
3. Chwaraewr y Flwyddyn (agored)
4. Tîm y Flwyddyn dan 16 oed
5. Tîm y Flwyddyn (agored)
6. Tîws 'Ysbryd y Gêm' (y nod yma yw gwobrwyo unrhyw un nad yw'n 'seren' o bell ffordd ond sydd trwy ymroddiad, agwedd a

theyrngarwch yn adlewyrchu gwir ystyr y 'campau').

Mae'n fwriad hefyd i gyflwyno tîwsau i wahanol unigolion a gyfrannodd dros y blynnyddoedd i gampau'r ardal.

Rhag ofn i chwi feddwl mai fy mympwy bersonol i fydd yn dewis yr enillwyr gallaf eich sicrhau y bydd yna banel bychan yn cyfarfod i'w dewis. Bwriedir hefyd gael gŵr/gwraig wadd i gyflwyno'r tîwsau yn y cyfarfod gwobrwyo.

Yn amlwg bydd tipyn o gost i sefydlu noson o'r fath am y tro cyntaf. Gwnaf apêl felly os oes yna unrhyw unigolyn, busnes neu dîm o fewn yr ardal fyddai'n dymuno noddi un o'r tîwsau fe fyddai'r *Eco* yn ddiolgar iawn.

Wel, bellach mae'r cwch wedi'i wthio i'r dŵr. Mae noson wobrwyo Tîws yr Eco (cynradd) wedi hen ennill ei phlwy oherwydd cefnogaeth a theyrngarwch wych pobol yr ardal. Tybed a allwn ni greu traddodiad arall yn yr ardal — y cyntaf gan bapur bro, mae'n siŵr — trwy gefnogi y 'babi' newydd i'n plith. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

### TLWS OEDOLION

Bu cystadleuaeth Tîws yr Eco i ddisgyblion ysgolion cynradd yr ardal yn llwyddiannus ers sawl tymor bellach. Mae yna fwriad yn awr i sefydlu Tîws arall ar gyfer tri thîm oedolion y fro — Deiniolen, Llanberis a Llanrug. Y prif reswm y tu ôl i'r syniad yw sefydlu cwpan elusen yn y fro — rhyw fath o 'Charity Shield' ar ddechrau'r tymor pêl-droed. Gellid meddwl am y gêm fel rhan o baratodau'r clybiau ar gyfer y tymor newydd. Y gwahaniaeth, wrth gwrs, fyddai fod y gêmiau paratol yma yn gêmiau darbi. Eisoes mae clwb Deiniolen wedi dweud ei fod yn fodlon cystadlu. Disgwylir atebion gan y ddau glwb arall wedi i'w pwyllgorau gyfarfod yn ystod y mis.

Os bydd y clybiau yn fodlon yna bwriedir chwarae'r gêmiau yn ystod wythnos cyn diwedd Gorffennaf. Er enghraifft, gellir cael trefn fel a ganlyn — nos Lun: Deiniolen v Llanberis; nos Fercher: Llanberis v Llanrug; nos Wener: Llanrug v Deiniolen.

Ynglŷn â'r cysylltiad elusennol y bwriad yw fod unrhyw arian a gesglir wrth y giât yn cael ei drosglwyddo i achos da lleol. Yn sicr byddai rhywun neu rywrai yn deilwng bob blwyddyn. Eleni fe fyddai Ysgol Brynrefail — canolbwynt y fro — yn falch o'n cefnogaeth gan fod gwir angen am fws mini newydd ar yr ysgol ar gyfer yr amrywiol alwadau addysgol a chwaraeon. Byddai unrhyw elw o'r gystadleuaeth arfaethedig yn hwb sylweddol.

Beth amdani Llanrug a Llanbêr?

## DAFYDD OWEN TRYDANWR


Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 871680

# CROESAIR GORFFENNAF



Dim ond dwy lythyren sydd yn newyddion y Sais yn Gymraeg!

## AR DRAWS

1. Mis yn ôl, ar un llaw, bu'n mygu (5)
4. Yr hyn a ddigwydd i ystafell fyglyd ar ôl agor y ffenest — tŷ gwyn llaid heb do! (10)
9. Cas llythyr (5)
10. Darnau hir o bren eu defnyddir i bysgota (10)
11. Nid yn ei safle priodol (4,1,2)
12. Y 17 i lawr o ble daw'r haul yn y bore (7)
15. Y 17 i lawr na sydd o chwith (2)
16. Aderyn mawr yn Cibyn! (6)
19. To Glad wedi malu — mae'n agored (6)
22. Yn fyr, mae'r Sais yn mynd hanner ffordd rhwng 4 a 21 i lawr (2)
24. Gorchuddio ag arian (7)
26. Hedegog, fel aderyn (7)
29. Cynllun y wibdaith awr wedi methu (10)
30. Diawl wedi meddwi ydi'r dyn yma (5)
31. Te, coffi, cwrw a'u tebyg (10)
32. Anifail ifanc — y cnaf (5)


## I LAWR

1. Lamas digrif, digrif (5)
2. Siarad lol (4,4)
3. Y darnau haearn y bydd y gof yn eu taro (8)
4. 17 i lawr yr Alban o Gymru (6)
5. Daisy yn ysu wrth ddychwelyd (5)
6. Crynhoad o ryfal taid (9)
7. Eglwys metals wedi toddi yng nghyffiniau Abertawe (9)
8. Gosod yn y 15 ar draws (4)
13. Gŵr caeth yn pysgota eogiaid (5)
14. Mis y ffyliaid (5)
17. Enw eich cartref? (9)
18. Dy chwain od? Mae'n bosibl (9)
20. Mwy nag un cangen (8)
21. Y 17 i lawr sydd dros y ffordd i'r 12 ar draws (8)
23. Arfau blaenllym a ollyngir o fwa (6)
25. Roedd angen chwech o'r rhain ers talwm i wneud 50c (5)
27. Gwawl (5)
28. Pennaeth y mynachlog (4)

## ATEBION CROESAIR MEHEFIN

Derbyniais dros ugain o atebion cywir i groesair Mehefin, da iawn, mae'r nifer yn cynyddu bob mis. Y rhai llwyddiannus oedd Megan Wyn Jones, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Nansi Davies, Rhuthun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nan Owen, Llanberis; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog Fawr; Mair Foulkes, Penisarwaun; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; Ceridwen Williams, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Margaret Povey, Garndolbenmaen; Chris Roberts, Llanrug; Mary Davies, Waunfawr; Olwen Owen, Llanberis; N. Hughes, Cwm-y-glo; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes Jones, Rhiw, ac Elfed Evans, Llanllechid. Mae yna un cywir arall hefyd ond sy'n ddi-enw — yr un un ydach chi bob mis? Yr enw a dynnwyd allan o'r het y tro yma ydi Mary Davies, Bryn Eithin, Waunfawr. Ein llongyfarchiadau a £5 Mehefin i chi.

Ar ôl cwblhau croesair y mis yma, gyllwch eich atebion, a'ch enw, i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 31 Gorffennaf. Mwynhewch!



Cefnogwch ein Hysbysebwy

# Dyddiadur y Mis

## MIS GORFFENNAF

- Mawrth** 1 **BETHEL**: Sioe Gerdd yn yr Ysgol.  
**PENISARWAUN**: Mabolgampau'r Ysgol.
- Mercher** 2 **DEINIOLEN**: Cyngerdd y Carnifal am 6.30 yn Ebeneser.
- Iau** 3 **BETHEL**: Sioe Gerdd yn yr Ysgol.  
**DEINIOLEN**: Cyfarfod y Chwirydd am 2 o'r gloch yn Ebeneser.
- Gwener** 4 **CWM-Y-GLO**: Helfa Drysor.
- Sadwrn** 5 **DEINIOLEN**: Y Carnifal.  
**LLANBERIS**: Trip yr Ysgol Sul.
- Sul** 6 **YR ARDAL**: Cymanfa Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda, am 6 o'r gloch. Bws yn cychwyn o Lanberis am 4.45 ac yn galw yn Llanrug, Brynrefail a Deiniolen.
- Mercher** 9 Cymanfa 'Gofal Henoed' yn Seilo, Tregarth.
- Iau** 10 **BRYNREFAIL**: Cymdeithas y Chwirydd gyda Mr Norman Williams.
- Gwener** 11 **BETHEL**: Helfa Drysor yn cychwyn o'r ysgol.  
**PENISARWAUN**: Noson Bingo yn y Neuadd.
- Sadwrn** 12 **DEINIOLEN**: Taith flynyddol Merched y Wawr.
- Sul** 13 **DEINIOLEN**: Cyfarfod Pregethu Libanus am 2 a 5.30 o'r gloch.
- Mercher** 16 **BETHEL**: Helfa Drysor y Carnifal.  
**LLANRUG**: Sêl Cist Car yn iard yr Ysgol Gynradd.
- Gwener** 18 **DEINIOLEN**: Taith flynyddol Undeb y Mamau.
- Sadwrn** 19 **LLANBERIS**: Y Carnifal.  
**BETHEL**: Y Carnifal.

## RHODDION

£10: Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun.

£5: Teulu y ddiweddar Mrs Greta Thomas, 67 Pentre Helen, Deiniolen. Mr Wil Jones a'r teulu, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Teulu'r ddiweddar Mrs Williams, Dwyfor, Waunfawr. Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun. Harry Roberts, 2 Rhes Plas Tirion, Llanrug. Mr Geraint Huws Roberts, Bangor. Brenda, Cynthia a Margaret o Awstralia (Tanmerddyn, Ceunant gynt). Mr H. R. Jones, Bod Fair, Llanberis. Mr a Mrs Ieuan Ellis Jones, Erw'r Coed, Llanberis. Mrs Ceinwen Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen. Olwen Jones, 10 Maes Derlwyn, Llanberis.

£3: Mr a Mrs J. Daniels, Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn, Llanrug. Marina Williams, Llanrug. Mrs Helen Francis, Caer. Mrs Nan Williams, Llandudno.

£2: Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir, Dinorwig.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo  
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**  
40 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY  
Ffôn: (01248) 714043 neu (01286) 674520  
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**OSMOND SHAW DEINIOLEN**

GWERTHU - TRWSIO  
★ Teledu ★ Fideo  
★ Offer Trydan  
Gwasanaeth Ffôn 24awr  
(01286) 870545

MAE'R  
**SAMARIAID**  
YN GWRANDO  
YN ABBEY ROAD  
**BANGOR**  
(01248) 354646

# CHWARAEON

## TLWS YR ECO 1997

Cliriodd y cawodydd a chafwyd noson o heulwen ar faes Ysgol Gynradd Llanrug. Roedd yr heulwen yn dod o wynebâu'r 130 o fechgyn a genethod a gynrychiolodd y 16 o dimau o bentrefi Llanberis, Llanrug, Waunfawr, Cwm-y-glo a Bethel. Eleni roedd y ddwy gystadleuaeth yn cydreddeg gan ddefnyddio goliau maint addas i'r oedranau. Diolch i glwb Llanrug am ei gyfraniad gwerthfawr o roi benthyg a gosod y goliau. Newidiwyd yr oedranau hefyd eleni — dan 9 a than 11. Golygodd hyn wledd o bêl-droed, yn enwedig yn yr oedran ieuengaf. Fel dywedodd rhywun — roedd y bêl yn fwy na rhai o'r chwaraewyr! Roedd y brwdfrydedd yn fyrlymus, ond dyna ichi broblem — sut ydych chi'n esbonio i blentyn 7 oed nad ydi 'Yncl Richard' yn gallu trefnu'r fath gystadleuaeth bob wythnos!

Roedd yna wyth tîm ym mhob oedran felly cafwyd dwy gynghrair o bedwar tîm, gyda phawb yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Yn y gystadleuaeth o dan 9 oed, wedi'r chwythu, cicio, disgyn a chwerthin, daeth timau Llanrug 'A' a 'B', Llanberis 'A' a Bethel i'r rownd gyn-derfynol. Os bydd rhywun yn cloriannu hanes y Tlws yma rywdro yna fe fydd y gêm a fu rhwng Llanberis 'A' a Bethel yn cael lle amlwg. Wedi chwe munud, dim sgôr. Wedi deg munud, dim sgôr. Cyfartal ar giciau cornel hefyd. Yna wedi 13 munud un o chwaraewyr Bethel yn troi ergyn i'w rwyd ei hun. Hawdd deall y dagrau ond diolch am

y modd wych y deliodd nifer o rieni â'r siom! Yn y rownd derfynol ymdrechodd Llanberis yn galed er eu blinder ond i dîm Llanrug 'A' yr aeth y Tlws eleni. Diolch i Maldwyn Huws am ddyfarnu'r gêm ym yr oedran yma — doedd o ddim wedi rhedeg cymaint ers blynnyddoedd! Roedd ei gyfraniad yn werthfawr iawn.

Yn yr oedran hyn roedd goliau yn bethau prin. Unwaith eto roedd safon y gôlgeidwaid yn uchel iawn. Yn wir un o sêr y noson oedd Elsa yn y gôl i Lanberis. Roedd hi'n gampus, gyda dwylo segur a syniad gwych o ble i sefyll — ac yn ddi-ofn! Dyma gôlgeidwad i dîm merched Bangor — a Cymru y dyfodol. Daeth y rowndiau cyn-derfynol yn frwydr rhwng Llanrug a Bethel.

Yn y rownd derfynol Llanrug 'A' wynebodd Bethel 'A' dros gêm wyth munud. Gyda thri munud i fynd roedd y sgôr yn gyfartal ond yna rhwydodd Llanrug dair gôl i wneud sgôr derfynol o 4-1. Ymysg y goliau roedd un wych gan Eifion — gwau ei ffordd heibio tri amddiffynwr cyn taro taran o ergyd â'i droed chwith i'r rhwyd. Gôl deilwng i unrhyw ffeinal. Cyflwynwyd medalau aur ac arian i'r timau llwyddiannus.

Dyna ni am flwyddyn arall felly. Buan iawn y daw'r tro nesaf. Llauer o ddiolch i'r llu a roddodd gymorth er lles y plant.

Ymlaen â ni felly, gobeithio, at Dlws yr Eco i Oedolion. Os cawn yr un gefnogaeth yna mae wledd yn ein haros gan adlewyrchu'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn yr ardal hon.

## PENCAMPWYR TLWS YR ECO



Tîm dan 9 oed Llanrug.



Tîm dan 11 oed Llanrug

## AR BEN ARALL Y LEIN efo HUW HUWS

Wedi i mi roi tipyn o wybodaeth am broblemau Llyn Padarn y mis diwethaf roeddwn wedi gobeithio y byddai rhai o'r awdurdodau yn codi eu clustiau a gwranddo tipyn ar yr hyn sy'n digwydd. Ond na, fel arfer yn yr ardal, dim ond tawelwch a phennau'n mynd yn ddyfnach i'r tywod a gafwyd. Enghraifft arall o'r syndrom 'anghofiwch amdano ac fe aiff i ffwrdd'? Ond gwaetha'r modd nid felly y bydd hi efo peth fel hyn.

Nid oes ond un ffordd effeithiol i wneud i rai lawn sylweddoli maint eu trosedd, sef eu herlyn drwy'r llysoedd. A dyna mae'r Clwb Pysgota lleol — drwy'r 'Anglers Conservation Association' yn ceisio cael Asiantaeth yr Amgylchedd i'w wneud â Dŵr Cymru.

Dyma beth sydd wedi cael ei ddweud gan ein cyfreithiwr mewn llythyr at yr Asiantaeth: 'Roedd y troseddau yn erbyn y caniatâd enliffiad yn enwedig yn ystod haf 1996 yn gyson a difrifol'; a 'Rydym wedi gweld "print-out" y cofrestr gyhoeddus sy'n rhoi dadansoddiad o 22 sampl a gymerwyd rhwng 30:06:1995 a 13:03:1997. Mae 12 o'r rhain yn torri'r eithaf uchaf o 3.5 mg/l. Ar ben hynny mae'r eithaf isaf o 1.5 mg/l sy'n caniatáu hyd at ddau drosedd allan o 12 mewn unrhyw gyfnod o 12 mis wedi ei dorri yn ystod unrhyw dymor o 12 mis a ddefnyddir i wneud asesiad.'

Ar y llaw arall mae'n rhaid bod yn deg â'r Asiantaeth. Mae'n rhaid iddynt hwythau gadw at ganllawiau penodedig cyn dechrau erlyniad. Ond yn yr

achos hwn mae pob un o'r canllawiau yn mynnu y dylid mynd ymlaen i erlyn.

Beth sy'n mynd ymlaen yma tybed? Mae'n wahanol iawn mewn llefydd eraill. Gwelais yn y *Daily Post* bod Dŵr Cymru wedi cael dirwy o £20,000 a £475 o gostau ar ddau gyhuddiad o fethu cadw at y caniatâd arllwys carthion i Afon Dyfrdwy. Dyna ddau achos mewn ychydig amser yn y fan honno. Beth am y llu o achosion a digwyddodd yn yr ardal yma? Wrth gwrs maent yn cyfeirio at aber y Dyfrdwy fel 'Ardal Amgylcheddol Sensitif'. Beth yw Llyn Padarn tybed?

O'r diwedd caf droi at dipyn o 'sgota. Oherwydd problemau Padarn, a'r algae yn y Seiont, prin iawn fu'r cyfleon yma oherwydd lliw ac ansawdd y dŵr. Ond mae pethau'n wahanol ar y Llynfyny gyda rhediadau da o Sewin wedi dechrau'n gynnwys eleni. Mae'r rhai cyntaf yn ymlwybro ar hyd llwybrau cuddiedig, sy'n filoedd o

(Parhad ar dudalen 18)

## 102 HEB FOD ALLAN



Yn ystod tymor criced y llynedd cafwyd erthygl yn yr Eco am Tom Evison o Gaeathro. Dywedwyd y pryd hwnnw fod cryn addewid yn y chwaraewr ifanc yma a bellach braf yw cael cofnodi fod hynny wedi ei wireddu. Mae'r 'bychan' tair ar ddeg oed yn chwarae'n rheolaidd i dîm oedolion Bangor ac mae ei fatio, a bowlïo araf, troelledig, llawchwith, yn cyfrannu'n gyson. Mae Tom yn

gryn ddewin pan mae'n chwarae yn ei oedran ei hun. Yn ddiweddar cynhaliwyd Gŵyl Griced o dan 14 oed Eryri, gyda thimau rhanbarthau Arfon, Meirion/Dwyfor, Môn, ac Aberconwy/Colwyn. Dros dridiau cafwyd gwledd o griced ac ar derfyn yr Ŵyl tîm Arfon oedd y pencampwyr.

Cafwyd sawl uchafbwynt ond yn ddi-os y seren oedd Tom. Yn y gêm yn erbyn Môn a chwaraewyd ar ei faes 'cartref' yn Nhŷ Newydd fe sgoriodd Tom 102 heb fod allan mewn batïad a barhaodd 37 pelawd. Mae hyn yn dipyn o gamp i un mor ifanc. Roedd y batïad gwych yma yn cynnwys 12 ergyn i'r ffin, sydd eto yn dipyn o gamp ar faes eang Tŷ Newydd. Yn ei dair batïad yn ystod yr Ŵyl fe sgoriau Tom oedd 47, 102 a 54 — i gyd heb fod allan. O, ia! — cymerodd 12 wiced hefyd!

Bydd carfan Eryri yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Ŵyl Genedlaethol a gynhelir yn Aberystwyth yn ystod mis Awst. Mae tîm o dan 15 oed Ysgolion Eryri — sy'n cynnwys Tom — hefyd drwodd i rownd gyn-derfynol Cwpan Cymru.

Heb fawr o sylw mae'r 'ychydig gweithgar' yn cynnal gwreiddiau criced yn yr ardal hon.